Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

# Cymraeg Cynnar 4

## Uwch



Cymraeg Gwaith
Work Welsh

Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

# Cymraeg Cynnar 4

## Uwch



Cymraeg Gwaith
Work Welsh





# *Llawlyfr Cwrs Cymraeg Cynnar 4*

## *Cwrs Lefel Uwch*

*gyda diolch i CWLWM am eu cyngor a'u cydweithrediad wrth baratoi'r cwrs hwn.*

Mae'r llyfryn hwn yn cynnig canllawiau i diwtoriaid sy'n dysgu'r **Cwrs Cymraeg Cynnar 4** – lefel Uwch.  Nid yw'n gwrs Uwch llawn ond ei nod ydy galluogi ymarferwyr blynyddoedd cynnar sy'n medru'r Gymraeg, i gyflwyno patrymau Cymraeg a rhoi arweiniad cywir yn y Gymraeg wrth eu gwaith bob dydd gyda phlant dan 5.

Dylid nodi o'r cychwyn cyntaf bod y cwrs hwn wedi'i lunio ar gyfer cynulleidfa benodol sef **gofalwyr plant cyn ysgol** gyda'r nod y bydd y sawl sy'n ei ddilyn yn gallu dychwelyd i'r gweithle i ddefnyddio'r iaith yn hyderus ac yn gywir.

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Cymraeg Gwaith Work Welsh



**CEFNDIR**

Comisiynwyd Canolfan Gwasanaethau Cymraeg Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i awduro'r cwrs hwn ar sail gwaith ymchwil a wnaed i'r ddarpariaeth bresennol gan gwmni Sbectrwm.

Canfu'r gwaith ymchwil hwnnw yr angen am ddarpariaeth hyblyg yn cynnwys darpariaeth wyneb yn wyneb a darpariaeth y gallai'r ymarferwyr gael mynediad ati'n fwy annibynnol.

Mae'r tîm awduro yn cydnabod bod y sector gofal cyn ysgol yn gwbl allweddol o ran creu siaradwyr Cymraeg newydd a datblygu sgiliau a hyder wrth ddefnyddio'r iaith. Dyma'r oedran pan fydd plant yn caffael iaith yn gyflym ac yn naturiol. Mae ymchwil yn dangos bod cynifer ag 11% o'r holl siaradwyr Cymraeg wedi dysgu'r iaith mewn lleoliad cyn ysgol gyda 50% o'r siaradwyr hynny'n rhugl. Mae hyn yn fwy na'r ganran sy'n rhugl ymhlith y rhai sydd wedi dysgu'r iaith mewn ysgolion cynradd, uwchradd neu rywle arall heblaw am y cartref. Mae hyn yn tanlinellu pa mor dyngedfennol yw cyfraniad y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn y sector gofal cyn ysgol i gyrraedd nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.





**CYNNWYS**

Mae'r cwrs wedi ei gynllunio ar ffurf 10 uned, i'w cyflwyno mewn sesiynau **wyneb yn wyneb** dros isafswm o 20 o oriau dysgu.  Mae'r cwrs hwn yn un sy'n gofyn am sgiliau ieithyddol cadarn gan unrhyw diwtor fydd yn ei addysgu.  Mae'n mynd i'r afael â rhai pwyntiau gramadeg technegol a'i nod yw mireinio sgiliau ieithyddol unigolion sy'n medru'r Gymraeg.  Dylai'r cwrs gael ei addysgu gan diwtoriaid iaith profiadol.

Cyflwynir patrymau iaith defnyddiol trwy gyfrwng cyfres o unedau sy'n rhoi sylw i bwyntiau iaith penodol gyda'r cynnwys ei hun wedi ei gyd-destunoli i themâu cyffredin y maes.  Ceir pwyslais cryf ar bethau sy'n greiddiol i waith yr ymarferwyr fel gofyn cwestiynau, rhoi cyfarwyddiadau a gorchmynion, ynghyd â ffocws ar weithgareddau craidd fel darllen a thrafod lluniau a stori, chwarae gemau a pharatoi ar gyfer gwahanol weithgareddau.  Maent hefyd yn gydnaws â meysydd dysgu Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (2015), ac mae'r gofynion perthnasol ar gyfer cyrhaeddiad y plant ifancaf ar draws y meysydd dysgu hynny wedi eu hymgorffori.

Cynlluniwyd y cwrs gyda ffocws penodol ar ddatblygu sgiliau llafar yr ymarferwyr a hynny'n adlewyrchu natur eu gwaith gyda phlant oed cyn ysgol.  Ceisir ymdrin â'r gwallau cyffredin hynny a glywir gan siaradwyr rhugl a sefydlu patrymau mwy safonol er mwyn sicrhau model o gywirdeb priodol i'r ymarferwyr hynny sy'n ymgymryd â thasgau ysgrifenedig.  Modelir ffurfiau sy'n gydnaws â'r ffurfiau a gyflwynir yn y sector addysgol er mwyn sicrhau cysondeb i'r plant.  Lle bo amrywiaethau rhwng yr iaith lafar a ddefnyddir yn y de a'r gogledd, maent wedi eu hamlygu'n glir yn yr unedau.



Mae strwythur yr unedau'n gallu amrywio ond maent yn cynnwys amrywiaeth o'r canlynol:

- Cyfres o **brif batrymau** sy'n cyflwyno prif ffocws ieithyddol yr uned.

- **Rhestr eirfa**

Mae'r eirfa anghyfarwydd neu newydd sydd wedi'i chynnwys a'i defnyddio yn y broses o addysgu'r uned wedi'i rhestru ar ddiwedd pob uned.  Mae'r geiriau hyn wedi eu didoli fesul cenedl yr enw ynghyd â'u cyfieithiadau Saesneg.

- **Esboniadau gramadegol**

Ceir nodiadau gramadeg ar ddiwedd pob uned er mwyn ceisio esbonio mor syml â phosibl pam mae pethau'n digwydd. Pwrpas cynnwys y nodiadau hyn ydy cynnig cyfle i'r ymarferwyr weld beth yw'r rhesymau dros ambell newid neu batrwm ac ymestyn eu gwybodaeth ehangach am y Gymraeg.  Eu nod ydy meithrin y sgiliau trosglwyddadwy hynny gan alluogi ymarferwyr i gymhwyso'r wybodaeth i batrymau eraill wrth iddynt ymestyn eu gafael ar yr iaith.

- **Gweithgareddau**

Mae'r gweithgareddau wedi'u cynnwys ym mhob uned fel dull o gadarnhau'r patrymau sydd wedi'u dysgu yn ystod yr uned honno.  Ceir gweithgareddau i'w cwblhau o fewn sefyllfa ddosbarth y gellid eu cyflwyno hefyd fel tasgau i'w cwblhau'n annibynnol.  Ceir gweithgareddau hefyd i'w cwblhau yn ôl yn lleoliadau'r ymarferwyr er mwyn rhoi cyfle penodol iddynt ymarfer yr hyn sy'n cael ei ddysgu rhwng sesiynau.  Gweler yr adran **Cyflwyno'r Gweithgareddau** isod am fanylion pellach ar weinyddu'r gweithgareddau.

Noder fodd bynnag, na ddylai dull stwythuro'r unedau gael ei ddefnyddio fel fframwaith cyfyng ar gyfer cynllunio'r sesiynau dysgu. Gallai tiwtor addasu trefn yr unedau yn unol â gofynion yr ymarferwyr, a cheir awgrymiadau pellach isod ar ddulliau o gyflwyno'r elfennau gwahanol yn yr uned.  Fel sydd eisoes wedi'i nodi, dylai'r cwrs hwn gael ei addysgu gan diwtoriaid iaith profiadol fydd yn gallu addasu'r cynnwys yn ôl yr angen.

***Dysgu ar-lein annibynnol***

Yn ogystal â'r gweithgareddau a gyflwynir fel rhan o'r cwrs, bwriedir i'r adnoddau a'r gweithgareddau atodol a welir ar wefan *Dysgu Cymraeg* atgyfnerthu'r dysgu wyneb yn wyneb a galluogi ymarferwyr i weithio'n fwy annibynnol. Gwelir yno amrywiaeth o weithgareddau fesul uned cyfatebol yn meithrin dealltwriaeth yr ymarferwyr o'r patrymau a'r eirfa a gyflwynir.

Ceir gweithgareddau sy'n meithrin sgiliau ysgrifennu yn yr unedau ac yn y gweithgareddau atodol, ond fel y nodwyd eisoes, prif ffocws y cwrs ydy mireinio sgiliau llafar.



AWGRYMIADAU I DIWTORIAID SY'N CYFLWYNO'R CWRS

Mae'r adran hon yn cynnwys rhai awgrymiadau i gyflwyno'r cwrs yn y sesiynau wyneb yn wyneb.

*Cyflwyno'r pwyntiau iaith*

Cyn dechrau, gellid gosod **nod y wers**, sef dweud beth fydd prif ffocws y sesiwn. Dylid esbonio'r nod mewn ffordd syml gan brofi unrhyw ddealltwriaeth o'r pwyntiau dan sylw sydd gan yr ymarferwyr yn barod.

Er mai ffocws gramadegol fydd i'r sesiynau, mae'n allweddol bod y tiwtor yn perthnasu'r cynnwys yn union i waith yr ymarferwyr. Dylid annog gweithgareddau sy'n ddrych o'r sefyllfaoedd sy'n gyfarwydd i'r ymarferwyr yn eu gwaith bob dydd. Mae trafod eu defnydd o'r iaith yn rhan o'r broses honno ynghyd â'r angen i bwysleisio pwysigrwydd modelu iaith yn gywir i blant.

*Gweithgareddau'r Cwrs*

Ceir amrywiaeth o weithgareddau fel rhan o'r cwrs hwn. Mae pob uned yn cynnwys hyd at dri gweithgaredd i'w cwblhau fel rhan o'r broses o gyflwyno'r uned.

Pwrpas y gweithgareddau yw cadarnhau'r hyn sydd wedi'i ddysgu yn ystod y sesiwn.

Er bod cyfarwyddyd wedi ei gynnwys gyda'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau, dylai tiwtoriaid ac ymarferwyr feddwl am ddulliau amrywiol o ddefnyddio'r adnoddau. Mae hyn hefyd yn golygu bod modd defnyddio'r gweithgareddau'n wahaniaethol. Er enghraifft, gyda'r gemau trac, gellid derbyn atebion un gair ar gyfer rhai tasgau, ond



gellid gofyn am atebion llawn, sgyrsiau neu drafodaethau ar gyfer yr un gêm drac ar adegau eraill.

Mae cael amrywiaeth o ddisiau rhif, rhagenwau, lliw, siapiau ac ati yn y dosbarth yn ddefnyddiol.  Felly hefyd gardiau chwarae ac amrywiaeth o gardiau fflach megis Cardiau Fflach CBAC a Chynllun Colegau Cymru.

Yn olaf, mae cynnal sesiynau mini meicro yn ymarfer da i'r ymarferwyr ar gyfer cyflwyno patrymau ieithyddol mewn cyd-destun anffurfiol sy'n eu paratoi ar gyfer sefyllfa yn eu gweithleoedd.  Yn syml, mewn grwpiau o 3 neu 4, mae pob aelod o'r grŵp yn chwarae rôl yr 'arweinydd', gan gyflwyno gweithgaredd i'r dysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. gemau dis sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r patrymau iaith sy'n cael eu dysgu ar y pryd.  Mae'n broses effeithiol a pherthnasol o gadarnhau'r hyn sydd wedi'i ddysgu ac ar yr un pryd y mae'n ennyn hyder yr ymarferwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar mewn cyd-destun cyfarwydd.

Fel sydd eisoes wedi'i nodi, mae yna weithgareddau i'w cwblhau yn ôl yn lleoliadau'r ymarferwyr.  Dylid annog hyn a chynnal sgwrs ar ddechrau pob sesiwn i weld pa fath o brofiadau y mae'r ymarferwyr wedi'u cael wrth wneud hynny.





**Uned 1**

**Ffocws iaith**

Siarad, gofyn ac ateb cwestiynau yn y presennol, amherffaith a'r dyfodol.

Bore da **b**awb!

| | |
|---|---|
| Sut wyt ti heddiw? | Dw i'n hapus. |
| Sut wyt ti'n teimlo? | Dw i'n teimlo'n **d**rist / Rydw i'n **d**rist. |
| Sut mae Dewin yn teimlo heddiw? | Mae e'n / o'n hapus. |

| | |
|---|---|
| Sut roeddet ti'n teimlo ddoe? | Ro'n i'n hapus / Roeddwn i wrth fy modd. |
| Pam roeddet ti'n teimlo'n hapus? | Roedd fy mhen-blwydd i ddoe. |
| Sut roedd Dewin yn teimlo ddoe? | Roedd e'n / o'n teimlo'n **d**rist. |

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Cymraeg Gwaith
Work Welsh





| | |
|---|---|
| Sut mae'r tywydd heddiw? | Mae hi'n **w**yntog heddiw. |
| Sut oedd y tywydd ddoe? | Roedd hi'n **g**ymylog ddoe. |
| Sut bydd y tywydd fory? | Bydd hi'n braf fory. |

| | |
|---|---|
| Ydy hi'n heulog heddiw? | Ydy / Nac ydy. |
| Oedd hi'n **g**ymylog ddoe? | Oedd / Nac oedd. |
| Fydd hi'n **g**awodlyd yfory? | Bydd / Na fydd. |

| | |
|---|---|
| Ydych chi'n hoffi canu? | Ydyn. |
| Ydy Rhys yn hoffi canu? | Ydy. |
| Oeddech chi / O'ch chi'n hoffi'r gân? | O'n / Oedden. |
| Oeddet ti'n / O't ti'n hoffi'r stori ddarllenon ni ddoe Cai? | O'n / Oeddwn. |
| Fyddwch chi'n mynd i'r parc heddiw? | Byddwn. |



| | |
|---|---|
| Beth wyt ti eisiau ei wneud bore yma? | Dw i eisiau adeiladu castell. |
| Beth wyt ti'n hoffi ei wneud pan mae hi'n braf? | Dw i'n hoffi chwarae ar y traeth. |
| Beth wyt ti'n ei wisgo heddiw? | Dw i'n gwisgo siwmper goch. |
| Beth oeddet ti'n ei wisgo ddoe? | Roeddwn i / Ro'n i'n gwisgo crys t melyn. |
| Beth fyddi di'n ei wneud fory? | Bydda i'n mynd i'r ganolfan hamdden. |



## Geirfa

**Enwau benywaidd** *Feminine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| canolfan hamdden | leisure centre |

**Enwau gwrywaidd** *Masculine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| castell / cestyll | castle/s |

**Berfau** *Verbs*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| adeiladu | to build |

**Ansoddeiriau** *Adjectives*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| cawodlyd | showery |
| cymylog | cloudy |
| heulog | sunny |



**Arall** *Other*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| wrth fy modd | in my element |



**Gramadeg**

**Amser y ferf 'Bod'**

**Presennol** **Rydw i** ***/ am***

| **Cadarnhaol** | **Cwestiwn** | **Negyddol** |
|---|---|---|
| Rydw i / Dw i | Ydw i? | Dydw i ddim / Dw i ddim |
| Rwyt ti | Wyt ti? | Dwyt ti ddim |
| Mae e / o | Ydy e/o? | Dydy e/o ddim |
| Mae hi | Ydy hi? | Dydy hi ddim |
| Rydyn ni / 'Dyn ni / Dan ni | Ydyn ni? / 'Dyn ni? / Dan ni? | Dydyn / 'Dyn / Dan ni ddim |
| Rydych chi / Dych chi / Dach chi? | Ydych chi / Dych chi? / Dach chi? | Dydych / Dych / Dach chi ddim |
| Maen nhw | Ydyn nhw? | Dydyn nhw ddim |



**Amherffaith Roeddwn i** ***/ was***

| **Cadarnhaol** | **Cwestiwn** | **Negyddol** |
|---|---|---|
| Roeddwn i / Ro'n i | Oeddwn i? / O'n i? | Doeddwn i ddim / Do'n i ddim |
| Roeddet ti / Ro't ti | Oeddet ti? / O't ti? | Doeddet ti ddim / Do't ti ddim |
| Roedd e/o / Ro'dd e/o | Oedd e/o?/ O'dd e? | Doedd e/o ddim / Do'dd e/o ddim |
| Roedd hi / Ro'dd hi | Oedd hi? / O'dd hi? | Doedd hi ddim / Do'dd hi ddim |
| Roedden ni / Ro'n ni | Oedden ni? / O'n ni? | Doedden ni ddim / Do'n ni ddim |
| Roeddech chi / Ro'ch chi | Oeddech chi? / O'ch chi? | Doeddech chi ddim / Do'ch chi ddim |
| Roedden nhw / Ro'n nhw | Oedden nhw? / O'n nhw? | Doedden nhw ddim / Do'n nhw ddim |



**Dyfodol** **Bydda i** ***I will be***

| **Cadarnhaol** | **Cwestiwn** | **Negyddol** |
|---|---|---|
| Bydda i / Mi fydda i | Fydda i? | Fydda i ddim |
| Byddi di / Mi fyddi di | Fyddi di? | Fyddi di ddim |
| Bydd e/o / Mi fydd e/o | Fydd e/o? | Fydd e/o ddim |
| Bydd hi / Mi fydd hi | Fydd hi? | Fydd hi ddim |
| Byddwn ni / Mi fyddwn ni | Fyddwn ni? | Fyddwn ni ddim |
| Byddwch chi / Mi fyddwch chi | Fyddwch chi? | Fyddwch chi ddim |
| Byddan nhw / Mi fyddan nhw | Fyddan nhw? | Fyddan nhw ddim |

Sylwch beth sy'n digwydd i'r berfau wrth i ni ofyn cwestiwn neu wrth ffurfio brawddegau negyddol.

**Cofiwch:**

Mae enwau unigol yn fenywaidd neu'n wrywaidd yn y Gymraeg.
Mae'r gair **tywydd** bob amser yn wrywaidd,e.e. tywydd drwg, y tywydd hwn.
Ond, wrth **siarad am** y tywydd rydym yn dweud **Mae hi, Roedd hi**, neu **Bydd hi.**



Rydym yn defnyddio **Sut** bob tro wrth drafod y tywydd. Ceisiwch osgoi cyfieithu yn llythrennol o'r Saesneg.

Sut mae'r tywydd heddi? ✓

Beth mae'r tywydd fel heddi? ×

**Y Treiglad Meddal**

Dyma'r llythrennau sy'n treiglo'n feddal.

| | |
|---|---|
| c > | g |
| p > | b |
| t > | d |
| g > | / |
| b > | f |
| d > | dd |
| ll > | l |
| m > | f |
| rh > | r |





**Treiglo ar ôl ‘yn’**

Mae ansoddair yn treiglo’n feddal ar ôl **yn**, e.e. yn **d**rist, yn **w**yntog, yn **g**ymylog

Ond, byddwch yn ofalus...

Fydd ansoddeiriau sy’n dechrau gyda ‘ll’ neu ‘rh’ ddim yn treiglo – yn rhewllyd.

Mae’r ansoddair **braf** yn eithriad, dydy e ddim yn treiglo, e.e. yn **b**raf.

Dydy berfenwau ddim yn treiglo ar ôl **yn**, e.e.  yn canu, yn cuddio, yn darlunio, yn glawio

**Treiglo wrth ddefnyddio ‘ei’ sy’n cyfeirio yn ôl.**

Wrth ofyn cwestiynau ‘**Beth**’ mae’n rhaid defnyddio **ei** cyn y berfenw ac rydym yn treiglo’n feddal. Weithiau dydyn ni ddim yn dweud **ei** ar lafar ond mae’r treiglad yn aros oherwydd dylanwad yr **ei** sy’n cyfeirio yn ôl, e.e.

Beth wyt ti eisiau ei **w**neud? > Beth wyt ti eisiau **w**neud?

Beth oeddet ti’n ei **f**wyta? > Beth o’t ti’n **f**wyta?

Beth fyddi di’n ei **g**oginio? > Beth fyddi di’n **g**oginio?





## Uned 2

**Ffocws iaith**

Berfau rheolaidd yn y gorffennol.

Gofyn cwestiynau, ateb yn gadarnhaol ac yn negyddol.

Rhai rheolau treiglo gyda berfau.

| | |
|---|---|
| Beth wnest ti ddoe? | Es i i'r traeth. |
| **G**erddoch chi ar hyd y tywod? | Do, cerddais i ar hyd y tywod. |
| Adeiladaist ti **g**astell tywod? | Do, adeiladais i **g**astell tywod mawr. |
| Pa gêm chwaraeaist ti ar y traeth? | Chwaraeais i **b**êl-droed. |
| Pwy chwaraeodd gyda ti/ efo ti? | Bobi a Harri, fy mrodyr. |
| **R**edoch chi'n gyflym? | Do, rhedon ni'n gyflym iawn. |
| | Naddo, **r**edon ni ddim yn gyflym. |
| | Rhedon ni'n araf. |





| | |
|---|---|
| Beth **f**wytaist ti i ginio? | Bwytais i **f**rechdan gaws. |
| Beth yfaist ti yn y caffi? | Yfais i **l**aeth/**l**efrith ac yfodd Mam **dd**ŵr. |
| **Dd**ringaist ti'r creigiau? | Do, dringais i'n uchel iawn. |
| Beth **w**eloch chi ar y traeth? | Gwelon ni granc. |
| **G**lywaist ti sŵn y tonnau? | Do. |
| Pwy **w**elaist ti yno? | Gwelais i fy nhad-cu / fy nhaid. |
| Beth **dd**igwyddodd ar y traeth? | Cwympais i a bwrw fy mhen. |
| | Syrthiais i a tharo fy mhen. |
| **F**wynheaist ti nofio yn y môr? | Do. Roedd yn wych. |
| | Naddo, roedd y môr yn rhy oer. |



## Geirfa

**Enwau benywaidd** *Feminine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| brechdan/au | sandwich/es |
| craig/creigiau | rock/s |
| ton/tonnau | wave/s |

**Enwau gwrywaidd** *Masculine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| brawd/brodyr | brother/s |
| cranc/od | crab/s |
| traeth/au | beach/es |

**Berfau** *Verbs*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| digwydd | to happen |
| dringo | to climb |



**Ansoddeiriau** ***Adjectives***

| **Cymraeg** | **Saesneg** |
|---|---|
| cyflym | quick/fast |
| gwych | excellent |



**Gramadeg**

**Y Gorffennol (rheolaidd)**

Dyma derfyniadau amser gorffennol y berfau rheolaidd.

| Terfyniadau | |
|---|---|
| fi | -ais |
| ti | -aist ti |
| e/o | -odd e/o |
| hi | -odd hi |
| ni | -on ni |
| chi | -och chi |
| nhw | -on nhw |

Mae treiglad meddal ar ddechrau'r cwestiwn, e.e. **F**wytaist ti dy ginio i gyd?

Mae treiglad llaes ar ddechrau'r negyddol os yw'r ferf yn dechrau â **c, p ,t,** e.e. **P**hrynais i ddim byd yn y siop.

Mae treiglad meddal ar ddechrau'r negyddol os yw'r ferf yn dechrau â **g, b, d, ll, m, rh**, e.e. **W**elais i ddim crancod ar y traeth.





| **Cadarnhaol** | **Cwestiwn** | **Negyddol** |
| --- | --- | --- |
| Cerddais i | Gerddais i? | Cherddais i ddim |
| Cerddaist ti | Gerddaist ti? | Cherddaist ti ddim |
| Cerddodd e/o | Gerddodd e/o? | Cherddodd e/o ddim |
| Cerddodd hi | Gerddodd hi? | Cherddodd hi ddim |
| Cerddon ni | Gerddon ni? | Cherddon ni ddim |
| Cerddoch chi | Gerddoch chi? | Cherddoch chi ddim |
| Cerddon nhw | Gerddon nhw? | Cherddon nhw ddim |

**Treiglo gwrthrych y ferf**

Mae gwrthrych berf gryno yn treiglo'n feddal.

Beth yw gwrthrych? Bydd y gwrthrych yn ateb y cwestiwn '**beth**' i'r ferf.

| **Berf** | **Goddrych (pwy)** | **Gwrthrych (beth?)**<br>**Treiglad meddal** |
| --- | --- | --- |
| Bwytais | i | **f**rechdan |
| Darllenais | i | **l**yfr |
| Fwytaist | ti | **g**inio? |
| Weloch | chi | **g**ranc? |



Sylwch – does dim treiglad gyda'r negyddol,

e.e. Fwytais i ddim **b**rechdan, Ddarllenais i ddim **ll**yfr

Sylwch hefyd, bydd defnyddio **y** yn newid y rheol:

| | |
|---|---|
| Weloch chi'r cranc? | cranc (eg) y cranc |
| Darllenais i'r llyfr | llyfr (eg) y llyfr |
| Bwytais i'r **f**rechdan | brechdan (eb) y **f**rechdan |

Dim ond enwau benywaidd unigol fydd yn treiglo ar ôl **y**.

**Beth? / Pwy?**

Pan fydd berfau cryno yn dilyn **Beth?** a **Pwy?** byddan nhw'n treiglo'n feddal,

e.e. Beth **b**rynodd hi? Pwy **w**elaist ti?

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Cymraeg Gwaith Work Welsh



**Y Treiglad Llaes**

Cyflwynwyd y llythrennau sy'n treiglo'n feddal yn Uned 1.  Dyma'r llythrennau sy'n treiglo'n llaes.

| | |
|---|---|
| c > | ch |
| p > | ph |
| t > | th |

Mae treiglad llaes ar ddechrau'r negyddol os yw'r ferf yn dechrau â **c, p, t,** e.e. **Ch**afodd e/o ddim brecwast.

**Amrywiaethau daearyddol**

Yn aml, byddwch chi'n clywed y patrwm 'Mi wnes i ...(berfenw)' ar lafar i gyfleu rhywbeth sydd wedi digwydd yn y gorffennol, e.e. Mi wnes i gerdded / Mi wnes i ddysgu.





Uned 3

**Ffocws iaith**

Berfau afreolaidd yn y gorffennol.

Cwestiynau ac atebion cadarnhaol a negyddol.

| | |
|---|---|
| Beth wnest ti ar y penwythnos? | Es i i weld Tad-cu/Taid a Mam-gu/Nain. |
| Beth gest ti i frecwast heddiw? | Ces i dost. |
| Ble est ti dros y penwythnos? | Es i i'r ganolfan hamdden i nofio. |
| Ble buest ti ddoe? | Bues i yn y parc gyda/efo Mam. |
| Sut dest ti yma heddiw? | Des i ar y bws. |



Sgwrs 1

A: Beth wnaethoch chi ddoe?

B: Cawson ni barti.

A: Wel, am sbri! Pa fath o barti gawsoch chi?

B: Cawson ni barti pen-blwydd.

A: Ble aethoch chi ar ôl y parti?

B: Aethon ni i'r dre ar y bws.

A: Fuoch chi yn y caffi newydd?

B: Do, buon ni yn y caffi newydd yn cael cinio.

A: Sut daethoch chi yma heddiw?

B: Daethon ni ar y bws.



Sgwrs 2

A: Wnest ti rywbeth diddorol dros y penwythnos?

B: Do, es i i'r sŵ gyda/efo fy nghyfnither.

A: Aethoch chi yn dy gar di?

B: Naddo, aethon ni ddim yn fy nghar i.  Aethon ni ar y trên.

A: Gawsoch chi hwyl?

B: Do, cawson ni lawer o hwyl!

A: Gawsoch chi amser i weld y llewod?

B: Naddo, chawson ni ddim amser i weld y llewod.

A: O dyna drueni/Bechod. Fuoch chi'n gweld yr eliffantod?

B: Do, bues i'n gweld yr eliffantod, roedden nhw'n ddoniol! Ond fuodd fy nghyfnither ddim, roedd ofn arni hi! Yr eliffantod oedd fy hoff anifeiliaid i yn y sŵ.



## Geirfa

**Enwau benywaidd** *Feminine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| cyfnither / cyfnitherod | cousin/s |
| tref/i | town/s |

**Enwau gwrywaidd** *Masculine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| brecwast | breakfast |
| cefnder / cefndryd | cousin/s |
| llew / llewod | lion/s |
| penwythnos /au | weekend/s |

**Ansoddeiriau** *Adjectives*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| diddorol | interesting |



**Gramadeg**

Mae **mynd, cael, gwneud, dod** a **bod** yn ferfau afreolaidd a dyma amser gorffennol y berfau hyn. Sylwch ar y treigladau wrth ofyn cwestiwn ac wrth ffurfio'r negyddol.

| **Cadarnhaol** | **Cwestiwn** | **Negyddol** |
|---|---|---|
| Gwnes i / Mi wnes i | Wnes i? | Wnes i ddim |
| Gwnest ti / Mi wnest ti | Wnest ti? | Wnest ti ddim |
| Gwnaeth e/o / Mi wnaeth e/o | Wnaeth e/o? | Wnaeth e/o ddim |
| Gwnaeth hi / Mi wnaeth hi | Wnaeth hi? | Wnaeth hi ddim |
| Gwnaethon ni / Mi wnaethon ni | Wnaethon ni? | Wnaethon ni ddim |
| Gwnaethoch chi / Mi wnaethoch chi | Wnaethoch chi? | Wnaethoch chi ddim |
| Gwnaethon nhw / Mi wnaethon nhw | Wnaethon nhw? | Wnaethon nhw ddim |





| Cadarnhaol | Cwestiwn | Negyddol |
|---|---|---|
| Des i / Mi ddes i | Ddes i? | Ddes i ddim |
| Dest ti / Mi ddest ti | Ddest ti? | Ddest ti ddim |
| Daeth e/o / Mi ddaeth e/o | Ddaeth e/o? | Ddaeth e/o ddim |
| Daeth hi / Mi ddaeth hi | Ddaeth hi? | Ddaeth hi ddim |
| Daethon ni / Mi ddaethon ni | Ddaethon ni? | Ddaethon ni ddim |
| Daethoch chi / Mi ddaethoch chi | Ddaethoch chi? | Ddaethoch chi ddim |
| Daethon nhw / Mi ddaethon nhw | Ddaethon nhw? | Ddaethon nhw ddim |

| Cadarnhaol | Cwestiwn | Negyddol |
|---|---|---|
| Ces i / Mi ges i | Ges i? | Ches i ddim |
| Cest ti / Mi gest ti | Gest ti? | Chest ti ddim |
| Cafodd e/o / Mi gafodd e/o | Gafodd e/o? | Chafodd e/o ddim |
| Cafodd hi / Mi gafodd hi | Gafodd hi? | Chafodd hi ddim |
| Cawson ni / Mi gawson ni | Gawson ni? | Chawson ni ddim |
| Cawsoch chi / Mi gawsoch chi | Gawsoch chi? | Chawsoch chi ddim |
| Cawson nhw/ Mi gawson nhw | Gawson nhw? | Chawson nhw ddim |





| Cadarnhaol | Cwestiwn | Negyddol |
|---|---|---|
| Es i / Mi es i | Es i ? | Es i ddim |
| Est ti / Mi est ti | Est ti? | Est ti ddim |
| Aeth e/o / Mi aeth e/o | Aeth e/o? | Aeth e/o ddim |
| Aeth hi / Mi aeth hi | Aeth hi? | Aeth hi ddim |
| Aethon ni / Mi aethon ni | Aethon ni? | Aethon ni ddim |
| Aethoch chi / Mi aethoch chi | Aethoch chi? | Aethoch chi ddim |
| Aethon nhw / Mi aethon nhw | Aethon nhw? | Aethon nhw ddim |

| Cadarnhaol | Cwestiwn | Negyddol |
|---|---|---|
| Bues i / Mi fues i | Fues i? | Fues i ddim |
| Buest ti / Mi fuest ti | Fuest ti? | Fuest ti ddim |
| Buodd e/o / Mi fuodd e/o | Fuodd e/o? | Fuodd e/o ddim |
| Buodd hi / Mi fuodd hi | Fuodd hi? | Fuodd hi ddim |
| Buon ni / Mi fuon ni | Fuon ni? | Fuon ni ddim |
| Buoch chi / Mi fuoch chi | Fuoch chi? | Fuoch chi ddim |
| Buon nhw / Mi fuon nhw | Fuon nhw? | Fuon nhw ddim |



**Cofiwch:**

Mae treiglad meddal ar ddechrau'r cwestiwn, e.e. **Dd**est ti ar y beic?

Mae treiglad meddal ar ddechrau'r negyddol os yw'r ferf yn dechrau â **g, b, d, ll, m, rh**, e.e. **Dd**aeth hi ddim i'r ysgol ddoe.

Mae treiglad llaes ar ddechrau'r negyddol os yw'r ferf yn dechrau â **c, p, t**, e.e. **Ch**es i ddim ffrwyth amser snac.

Does dim treiglad ar ddechrau'r gosodiad cadarnhaol, e.e. **C**awson nhw hwyl.

Yr atebion yw 'Do' a 'Naddo', pan fydd y cwestiwn yn dechrau gyda berf.

Bydd gwrthrych berfau cryno yn treiglo'n feddal, e.e. Gwnaeth hi **g**acen. Wnaeth hi **f**wyta?

Does dim treiglad ar ôl '**ddim**', e.e. Chawson ni ddim **c**ig moch i frecwast.

**Y Treiglad Trwynol**

Cyflwynwyd y llythrennau sy'n treiglo'n feddal a llaes yn Unedau 1 a 2.

Dyma'r llythrennau sy'n treiglo'n drwynol.

| | |
|---|---|
| c > | ngh |
| p > | mh |
| t > | nh |
| g > | ng |
| b > | m |
| d > | n |



**Fy / dy**

Mae treiglad trwynol yn dilyn **fy** – fy mhen, fy mrawd, fy nhad, fy nghefnder, fy nhro i.

Mae treiglad meddal yn dilyn **dy** - dy ben, dy frawd, dy dad, dy gefnder, dy dro di.

| | **Pa dreiglad?** |
|---|---|
| fy | Trwynol |
| dy | Meddal |
| ei (his) | Meddal |
| ei (her) | Llaes |
| ein | Dim |
| eich | Dim |
| eu | Dim |

**Amrywiaethau daearyddol**

Yn aml, byddwch chi'n clywed y patrwm 'Mi wnes i ...(berfenw)' ar lafar i gyfleu rhywbeth sydd wedi digwydd yn y gorffennol, e.e. Mi wnes i gerdded / Mi wnes i ddysgu.



Uned 4

**Ffocws iaith**

Defnyddio berfau rheolaidd ac afreolaidd i ffurfio gorchmynion.

Gorchmynion negyddol.

Rheolau treiglo yn dilyn gorchmynion.

Defnyddio'r rhagenwau **dy/eich.**

| | |
|---|---|
| Tynna **l**un y tedi. | Tynnwch **l**un y ddoli. |
| Rho **dd**ŵr yn y bowlen. | Rhowch **dd**ŵr yn y bowlen. |
| Cana **g**ân i mi | Canwch **g**ân i mi. |
| Cana'r gân am y tywydd. | Canwch y gân am y tywydd gyda / efo fi. |
| Eistedda'n daclus ar y llawr. | Eisteddwch yn daclus ar y llawr. |
| Gwranda'n ofalus. | Gwrandewch yn astud. |
| Gorwedda yn llonydd. | Gorweddwch yn dawel. |
| Sa'n llonydd. / Sefa'n llonydd. | Sefwch yn stond. |



| | |
|---|---|
| Gwisga dy **g**ot. | Gwisgwch eich cotiau. |
| Rho dy **g**ot ar y bachyn. | Rhowch eich cotiau ar y bachyn. |
| Golcha dy **dd**wylo yn lân. | Golchwch eich dwylo yn lân.. |
| Chwilia am dy **f**ag. | Chwiliwch am eich bagiau. |

| | |
|---|---|
| Bydd yn **o**falus. | Byddwch yn ofalus. |
| Dere/ Tyrd i balu yn y pridd. | Dewch i chwilio am drychfilod. |
| Cer/ Dos i olchi dy **dd**wylo. | Ewch i nôl eich bagiau. |
| Gwna siâp hir. | Gwnewch siâp cylch. |

| | |
|---|---|
| Rhaid i ti **w**rando yn ofalus. | Rhaid i chi eistedd yn daclus. |
| Rhaid iddo fe/fo **dd**weud diolch. | Rhaid iddi hi **w**isgo ffedog. |



**Gorchmynion negyddol**

| | |
|---|---|
| Paid â chweryla. | Peidiwch â chweryla. |
| Paid â bod yn ddrwg. | Peidiwch â bod yn ddrwg. |
| Paid â cherdded yn y mwd. | Peidiwch â cherdded yn y mwd. |
| Paid â meiddio. | Peidiwch â meiddio. |



## Geirfa

**Enwau benywaidd** ***Feminine nouns***

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| cân/caneuon | song/s |
| llaw/dwylo | hand/s |
| powlen/powlenni | bowl/s |

**Berfau** ***Verbs***

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| gorwedd | to lie down |
| sefyll | to stand |
| tynnu | to take off |

**Ansoddeiriau** ***Adjectives***

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| astud | carefully (to listen) |
| llonydd | still |
| stond | still |



**Gramadeg**

**Gorchmynion cadarnhaol**

Rydym yn defnyddio’r gorchmynion unigol i siarad ag un plentyn a’r rhai lluosog pan rydym yn siarad â’r grŵp.

Mae’r unigol yn cael ei ffurfio drwy roi **-a** ar ddiwedd bonyn y ferf, e.e.
Rheda!
Cerdda!

Fel arfer, mae’r lluosog yn cael ei ffurfio drwy roi **-wch** ar ddiwedd bonyn y ferf, e.e.
Rhedwch!
Sgipiwch!

**Rheolau treiglo**

Bydd treiglad meddal yn dilyn ffurf orchmynnol:

Tynna **l**un
Canwch **g**ân

Ond cofiwch bydd y rheol yn newid os ydych yn defnyddio ‘y’. Dim ond enwau benywaidd unigol fydd yn treiglo’n feddal ar ôl ‘y’, e.e.

| | |
|---|---|
| Paentia’r llun | llun = eg |
| Canwch y **g**ân | cân = eb |





**Defnyddio 'Rhaid'**

Gallwn ni ddefnyddio 'rhaid' i gyfleu gorchymyn. Sylwch ein bod yn treiglo'r berfenw ar ôl rhedeg yr arddodiaid 'i', e.e.

Rhaid i bawb **w**rando.
Rhaid i ti **f**wyta dy dost.
Rhaid i chi **g**anu yn uchel.

**Gorchmynion negyddol**

Mae'r gorchymyn unigol yn cael ei ffurfio drwy roi **Paid â** o flaen y ferf ac mae'r lluosog yn cael ei ffurfio drwy roi **Peidiwch â** o flaen y ferf.  Mae hyn yn achosi treiglad llaes, e.e.

**Paid â ch**erdded!
**Peidiwch â ph**oeni!

Dydyn ni ddim yn defnyddio'r treiglad hwn bob tro wrth siarad.

**Dim**

Weithiau, rydym yn rhoi **dim** o flaen y ferf i roi gorchymyn, e.e. Dim bwyta losin yn y dosbarth.

Does dim treiglad ar ôl **dim**.

**dy / eich -** ***your***

Pan rydym yn siarad ag un plentyn/person, rydym yn dweud **dy**. Mae **dy** bob amser yn cael ei ddilyn gan dreiglad meddal, e.e. dy **f**ag, dy **g**ot, dy **d**raed.

Pan rydym yn siarad â mwy nag un person, rydym yn dweud **eich**. Does dim treiglad ar ôl **eich**, e.e. eich **b**agiau, eich **c**otiau, eich **t**raed.

**Yn + ansoddair**

Mae ansoddeiriau yn treiglo ar ôl **yn**, e.e. yn **d**awel, yn **f**awr, yn **d**aclus, yn **g**yflym.



**Uned 5**

**Ffocws iaith**

Enwau unigol a lluosog.

Enwau benywaidd a gwrywaidd.

Rhai rheolau treiglo sy'n gysylltiedig â chenedl enwau.

Rhagenwau dangosol e.e. hwn, hon, hyn.

**Enwau ac ansoddeiriau**

| **Enwau gwrywaidd** | **Enwau benywaidd** | **Enwau lluosog** |
|---|---|---|
| bachgen bach | merch **f**ach | plant bach |
| ci bach | cath **f**ach | cŵn bach |
| ci bach brown | cath **f**awr **dd**u | cathod bach prydferth |



Dyma sgwâr bach

Dyma gylch mawr

Dyma ffrog **g**och

Dyma het wen

Dyma ddeilen werdd

Dyma ddail melyn

**Y+ enwau benywaidd/ gwrywaidd/ lluosog**

| | |
|---|---|
| Ble mae'**r** **b**êl? | Mae'**r** **b**êl yn y bocs melyn. |
| | Dyma'**r** **b**êl. |
| Ble mae'r ffedog? | Mae hi ar y peg. |
| | Dyma'r ffedog. |
| Ble mae'r rhidyll? | Mae e yn y tywod. |
| | Dyma'r rhidyll. |
| Ble mae'r peli? | Mae'r peli yn y **f**asged **g**och. |
| | Dyma'r peli. |
| Ble mae'r cregyn? | Mae'r cregyn yn cuddio o dan y tywod. Dyma nhw. |



| | |
|---|---|
| Ydy'r cwch ar y dŵr? | Ydy, **mae e/o** yn arnofio ar y dŵr. |
| Ydy'r bwced yn llawn? | Nac ydy, **dydy e/o ddim** yn llawn. |
| Ydy'r **dd**ol yn y bocs? | Nac ydy, **dydy hi ddim** yn y bocs. |
| Ydy'r pibellau yn y twba dŵr? | Ydyn, **maen nhw** yn y dŵr. |

**Hwn/ Hon / Rhain**

| | |
|---|---|
| Beth ydy hwn? | Twmffat ydy e/o. |
| Beth ydy hon? | Rhaw ydy hi. |
| Beth ydy'r rhain? | Cregyn ydyn nhw. |
| Pa siâp ydy hwn? | Cylch / sgwâr / triongl / petryal. |
| Pa fag yw dy un di? | Hwnna/hwnnw. |
| Pa got ydy dy un di? | Honna/honno. |
| Pa gylchoedd wnest ti eu lliwio? | Rheina/rheiny. |





## Geirfa

**Enwau benywaidd** *Feminine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| cragen / cregyn | shell/s |
| deilen / dail | leaf / leaves |
| ffedog/au | apron/s |
| pibell/au | pipe/s |

**Enwau gwrywaidd** *Masculine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| boch/au | cheek/s |
| crys/au | shirt/s |
| cownter/i | counter/s |
| petryal | rectangle |
| rhidyll | sieve |
| twmffat | funnel |



**Berfau** *Verbs*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| arnofio | to float |
| cuddio | to hide |

**Ansoddeiriau** *Adjectives*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| prydferth | beautiful |
| gwyn/ gwen | white |
| gwyrdd/ gwerdd | green |
| llawn | full |
| tlws / tlos | pretty |





**Gramadeg**

**Enwau Cymraeg**

Yn y Gymraeg, **mae pob enw yn wrywaidd, yn fenywaidd** neu'n **lluosog**.
Mae rhai enwau unigol yn gallu bod yn wrywaidd ac yn fenywaidd, e.e. cwpan, breuddwyd, cyngerdd.

**Ansoddeiriau ac enwau**

Mae ansoddeiriau yn treiglo'n feddal ar ôl enwau benywaidd unigol. Dydy ansoddeiriau ddim yn treiglo ar ôl enwau gwrywaidd unigol nac enwau lluosog.

| **Enwau benywaidd** | **Enwau gwrywaidd** | **Enwau lluosog** |
|---|---|---|
| merch **f**ach | bachgen bach | plant bach |
| stori **dd**a | llyfr da | plant da |

Pan rydym yn rhestru ansoddeiriau ar ôl enw benywaidd unigol, bydd pob un yn treiglo, e.e. merch **f**ach **dd**a.

Rydym yn defnyddio ffurfiau benywaidd ansoddeiriau ar ôl enwau benywaidd, e.e. het wen, deilen werdd, ffrog felen, merch dlos.

Weithiau, rydym yn defnyddio ffurfiau lluosog ansoddeiriau ar ôl enwau lluosog, e.e. rhosys cochion, crysau duon, lilis gwynion.



**Y fannod (y/’r/ yr) + enw**

Os yw **enw benywaidd unigol** yn dod ar ôl **y** neu **’r**, mae llythyren gyntaf yr enw yn **treiglo’n** feddal, e.e. y **g**ath, i’r **b**otel, y **f**erch, y **b**êl, mae’r **g**adair.

Os yw enw gwrywaidd yn dod ar ôl **y** neu **’r** does dim treiglad, e.e.  y bachgen, y tywod, y tŵr.

Os yw enw lluosog yn dod ar ôl **y** neu **’r** does dim treiglad, e.e. y merched, y bechgyn, y cregyn.

Ni fydd **ll/rh** yn treiglo ar ôl **y** (hyd yn oed os yw’n enw benywaidd), e.e. y llygoden fawr, y rhaglen deledu.

Rydym yn defnyddio **yr** o flaen **llafariad**: yr afal, yr anifeiliaid.

**Hwn, hon a hyn/rhain**

Wrth ysgrifennu neu wrth siarad yn fwy ffurfiol, mae pobl yn defnyddio **hwn**, **hon, hyn** yn lle **yma**.

Gydag enwau gwrywaidd, rydym yn defnyddio **hwn**, e.e. y tywod hwn.

Gydag enwau benywaidd, rydym yn defnyddio **hon**, e.e. y rhaw hon.

Gydag enwau lluosog, rydym yn defnyddio **hyn** neu **rhain**, e.e. y cregyn hyn, y rhain.



**Hwnna/Hwnnw    Honna/Honno    Hynny    Rheina/Rheiny**

Wrth ysgrifennu neu siarad yn ffurfiol, mae pobl yn defnyddio **hwnnw**, **honno** a **hynny** yn lle **yna**, e.e.

y cownter hwnnw        y ffedog honno        y dail hynny

Ar lafar, os ydych chi'n gallu pwyntio neu ddangos y peth, mae pobl yn dweud **hwnna**, **honna** a **rheina** yn Ne Cymru, a **hwnnw, honno** a **rheiny** yng Ngogledd Cymru.

**Dyma**

Mae treiglad meddal yn dilyn **dyma**. Mae enwau gwrywaidd, benywaidd a lluosog yn treiglo ar ôl **dyma**, e.e. dyma **f**erch, dyma **f**achgen, dyma **b**lant

**Mae/ydy**

Cofiwch y ffurf gywir:

| | | | |
|---|---|---|---|
| MAE: | Ble mae'r llyfr? | Sut mae'r tywydd? | Pryd mae'r gêm? |
| YDY: | Pwy ydy'r athro? | Beth ydy'r llyfr? | Faint ydy'r tocyn? |





## Uned 6

**Ffocws iaith**

Defnyddio ansoddeiriau.

Cymharu ansoddeiriau.

Rheolau treiglo wrth ddefnyddio ansoddeiriau.

**Yn + ansoddair**

| | |
|---|---|
| Mae’r garreg yn **d**rwm. | Mae hon yn llyfn. |
| Mae’r glŵp yn **l**udiog. | Mae hwn yn teimlo’n **f**eddal. |
| Mae’r tŵr yn uchel. | Mae hwn yn **d**al. |
| Mae’r cerrig yn **f**awr. | Mae’r rhain yn **a**rw. |
| Ydy’r mwydyn yn **d**ew? | Nac ydy, mae e’n/o’n hir ac yn **d**enau. |
| Ydy’r llun yn lliwgar? | Ydy, mae’r llun yn lliwgar fel yr enfys. |
| Ydy hwn yn drwm neu’n/ ta’n ysgafn? | Mae e’n/o’n **d**rwm. |





**Cymharu ansoddeiriau**

***Cyfartal (mae'r ddau beth yr un peth)***

| | |
|---|---|
| Ydy'r corryn mor **f**awr â'r falwen? | Ydy/Nac ydy. |
| Ydy'r ddeilen mor hir â'r brigyn? | |
| Wyt ti mor **g**ryf â chawr? | Ydw/ Nac ydw. |

Ydy'r falwen **cymaint â**'r wenynen?

Ydy'r llong hon **cystal â'r** llong arall? Ydy/Nac ydy.

Mae hufen iâ **cynddrwg â** siocled.

***Cymharu (mae'r ddau beth yn wahanol)***

Mae mwydyn yn hirach na gwlithen.

Mae'r biben goch yn **f**yrrach na'r biben las.

Mae malwen yn arafach na morgrugyn.





Mae'r tŵr yn **uwch na**'r bwrdd.

Mae'r tŵr **yn is na'r** bwrdd.

Mae'r mochyn coed **yn fwy na'r** chwilen.

Mae'r morgrugyn **yn llai na phr**yfyn.

Mae dringo coed **yn fwy peryglus na** rhedeg.

*Eithaf (y mwyaf neu'r lleiaf)*

| | |
|---|---|
| Pa un yw'r mwyaf - y broga neu'r llyffant? | Y llyffant yw'r mwyaf. |
| Pa un yw'r fwyaf - y falwen neu'r wlithen? | Y wlithen yw'r **f**wyaf. |
| Pa un yw'r lleiaf - y mwydyn neu'r chwilen? | Y chwilen yw'r lleiaf. |
| Pa drychfilod yw'r lleiaf? | Y morgrug yw'r lleiaf. |

| | |
|---|---|
| Pa dŵr ydy'r uchaf/isaf? | Hwn ydy'r (tŵr) uchaf/isaf. |
| Pa biben ydy'r hiraf/fyrraf? | Hon ydy'r (biben) hiraf/**f**yrraf. |
| Pa anifail ydy'r cyflymaf? | Y llewpart ydy'r cyflymaf. |
| Pa anifail ydy'r mwyaf peryglus? | Y llew ydy'r mwyaf peryglus. |





## Geirfa

**Enwau benywaidd** *Feminine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| bresychen/bresych | cabbage/s |
| carreg/cerrig | stone/s |
| chwilen/chwilod | beetle/s |
| deilen/dail | leaf/leaves |
| gwenynen/gwenyn | bee/s |
| gwlithen/gwlithod | slug/s |
| malwen/malwod | snail/s |
| moronen/moron | carrot/s |
| piben/pibau | pipe/s |



**Enwau gwrywaidd** ***Masculine nouns***

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| broga/brogaod | frog/s |
| brigyn/brigau | twig/s |
| cawr/cewri | giant/s |
| corryn/corynnod | spider/s |
| glŵp | gloop |
| llewpart/llewpardiaid | leopard/s |
| mochyn y coed/moch y coed | woodlouse/woodlice |
| morgrugyn/morgrug | ant/ants |
| mwydyn/mwydod | worm/s |
| pryfyn/pryfed | insect/s |
| trychfil/od | insect/s (minibeasts) |
| tŵr/tyrrau | tower/s |



**Ansoddeiriau** *Adjectives*

| Cymraeg | Saesneg |
| --- | --- |
| cryf | strong |
| cyflym | fast |
| garw | rough |
| gludiog | sticky/gluey |
| isel | low |
| lliwgar | colourful |
| llyfn | smooth |
| meddal | soft |
| tenau | thin |
| trwm | heavy |
| uchel | high |
| ysgafn | light |





## Gramadeg

### Yn + ansoddair

Mae ansoddeiriau yn treiglo’n feddal ar ôl **yn**, e.e. yn **d**rwm, yn **f**awr, yn **f**ach, yn **g**ryf.

Sylwch, dydy ansoddeiriau sy’n dechrau gyda **ll** a **rh** ddim yn treiglo’n feddal ar ôl **yn**, e.e. yn **ll**awn, yn **ll**yfn, yn **ll**iwgar, yn **rh**ad.

### Cymharu ansoddeiriau

### Cyfartal

Pan rydym yn cymharu dau beth sy’n gyfartal, rydym yn defnyddio’r patrwm yma:

> Mae’r mwydyn mor hir â’r wlithen.
> Mae e mor **g**ryf â **ch**awr.
> Roedd e mor **f**awr ag eliffant.

Mae **mor** yn achosi treiglad meddal.

Mae **â** yn achosi treiglad llaes.

Sylwch eich bod yn defnyddio **â** cyn cytsain, e.e. mor araf **â** malwen.

Rydym yn defnyddio **ag** o flaen llafariad (a,e,i,o,u,w,y), e.e. mor fawr **ag** eliffant.



**Cymharol**

Pan rydym yn cymharu dau beth sy ddim yn gyfartal, rydym yn defnyddio'r terfyniad **-ach** a'r patrwm hwn:

> Mae'r mwydyn yn hir**ach** na'r wlithen.
> Mae coeden yn dal**ach** nag anifail.
> Mae'r biben goch yn fyrr**ach** na'r biben las.
> Mae'r mochyn coed yn fwy na'r chwilen.
> Mae'r morgrugyn yn llai na **ph**ryfyn.

Sylwch fod **na** yn achosi treiglad llaes, e.e. yn llai na **ph**ryfyn.

Rydym yn defnyddio **nag** o flaen llafariad, e.e. yn fwy nag eliffant.

**Eithaf**

Pan rydym yn siarad am rywbeth yn y radd eithaf, **y mwyaf / y lleiaf**, rydym yn defnyddio'r terfyniad **-af**, e.e. y mwyaf, y talaf, y cyflymaf, yr arafaf.

Yn y patrwm hwn, mae'r goddrych neu'r peth rydym yn siarad amdano yn dod ar ddechrau'r frawddeg neu'r cymal, e.e.

> **Y mwydyn** oedd y lleiaf.
> **Y llyffant** oedd y tewaf.



Wrth disgrifio rhywbeth benywaidd unigol mae'r ansoddair yn treiglo'n feddal, e.e.

Lowri yw'r dalaf

Y wlithen oedd y **d**ewaf.

Y wenynen oedd y **f**wyaf lliwgar.

**Ansoddeiriau hir**

Wrth gymharu pethau â'i gilydd, rydym yn rhoi **mor / mwy / llai / mwyaf/ lleiaf** o flaen ansoddeiriau'n terfynu yn:

**-aidd -ôl -og -us -gar**

Mae'r stori **mor** boblogaidd heddiw ag erioed.

Mae hi'n **fwy** diddorol na'r stori arall.

Dewi yw'r bachgen **mwyaf** gweithgar yn yr ysgol.



**Ansoddeiriau afreolaidd**

Mae rhai ansoddeiriau **afreolaidd** yn Gymraeg. Dyma'r patrwm ar gyfer yr ansoddeiriau afreolaidd:

| **Ansoddair** | **Cyfartal** *as good as* | **Cymharol** *better than* | **Eithaf** *the best* |
|---|---|---|---|
| da | cystal â | yn well | y gorau |
| drwg | cynddrwg â | yn waeth | y gwaethaf |
| mawr | cymaint â | yn fwy | y mwyaf |
| bach | mor fach â | yn llai | y lleiaf |
| uchel | mor uchel â | yn uwch na | yr uchaf |
| isel | mor isel â | yn is na | yr isaf |
| hawdd | mor hawdd â | yn haws na | yr hawsaf |

<u>Sylwch</u> does dim modd rhoi **mor** na **cyn** o flaen **cymaint**, **cynddrwg** a **cystal.**





**Uned 7**

**Ffocws iaith**

Defnyddio berfau ac arddodiaid.

Rhedeg arddodiaid.

Lleoli arddodiaid mewn brawddegau.

| **Pa arddodiad?** | **Rhedeg arddodiaid** |
|---|---|
| Gwranda **ar** Anti/Modryb Sue. | Gwrandewch arna i. |
| | Gwrandewch arni hi. |
| Edrycha **ar** Rhys. | Edrychwch arno fe/fo. |
| Dweda **wrth** Anti Sue. | Dwedwch wrtha i. |
| | Dwedwch wrthi hi. |
| Chwilia **am** falwoden. | Chwiliwch amdani hi. |
| Tafla’r bêl **at** Gareth. | Tafla’r bêl ata i. |
| | Tafla’r bêl ato fe/fo. |



| | |
|---|---|
| Cer/Dos â dy gwpan **at** y sinc. | Ewch â fe/fo at y sinc. |
| Rho'r bêl **i** Rhys. | Rho'r bêl iddo fe/fo. |

| | |
|---|---|
| Beth sy'n bod? | Mae bola tost gyda fi. |
| Oes pen tost gyda ti? | Oes, mae pen tost gyda fi. |
| Oes gen ti gur pen? | Nac oes, does gen i ddim cur pen. |
| Oes annwyd arnat ti? | Oes, mae annwyd arna i. |
| | Nac oes, does dim annwyd arna i. |
| Oes syched arnat ti? | Oes, mae syched arna i. |

**Defnyddio 'i'**

Rhaid i bawb wrando yn ofalus.

Rhaid i ti wrando yn ofalus Rhys.

Rhaid iddo fe/fo wrando yn ofalus.

Cyn i mi ddarllen y stori, eisteddwn ni yn dawel.

Ar ôl i ni orffen, cewch chi ganu'r gân.

Ar ôl iddi hi orffen, cewch chi dro i chwarae.

Gwisgwch got, cyn i chi adael.





Byddwch yn ofalus, rhag ofn iddi hi lithro.

Ble mae dy fag?  Rhag ofn i ti anghofio.

Ble mae ei fag? Rhag ofn iddo fe/fo anghofio.

**Lleoli arddodiaid**

| | |
|---|---|
| Am beth mae'r stori? | Mae'r stori am ferch fach o'r enw Catrin. |
| Am beth mae Elen yn chwilio? | Mae hi'n chwilio am gastell. |
| I ble mae Catrin yn mynd? | Mae hi'n mynd i'r goedwig. |
| Beth ydy hwn? | Dyma'r castell roedd hi'n chwilio amdano. |
| Beth ydy hon? | Dyma'r dywysoges roedd hi'n chwilio amdani. |



## Geirfa

**Enwau benywaidd** *Feminine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| malwoden/malwod | snail/s |

**Enwau gwrywaidd** *Masculine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| syched | thirst |

**Berfau** *Verbs*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| mynd (i) | to go to (somewhere) |
| mynd â | to take to |
| mynd at | to go to (someone) |
| dod â | to bring with |

**Ansoddeiriau** *Adjectives*


| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| gofalus | careful |
| astud | carefully (to listen) |

**Gramadeg**

**Berf ac arddodiad**

Yn aml, mae berf yn cael ei dilyn gan arddodiad, e.e.

**Gwrando ar y stori**




Weithiau, mae'r arddodiad Cymraeg yn wahanol i'r arddodiad Saesneg.

Yn Saesneg, *... to...* ydy bob un o'r isod, ond sylwch ar y rhain yn Gymraeg:

siarad **â**

dweud **wrth**

gwrando **ar**

edrych **ar**

taflu **at**

anfon **at** berson <u>OND</u>

anfon **i** le, e.e. anfon y llythyr at John, anfon y llythyr i Gaerdydd

mynd **at** berson <u>OND</u>

mynd **i** le, e.e. mynd â'r ffurflen at y pennaeth, mynd â'r ffurflen i'r swyddfa.





**Rhedeg arddodiaid**

Dyma batrymau'r arddodiaid **ar, am, at, gan, wrth, i**. Rydym yn rhedeg arddodiad wrth ychwanegu rhagenw ar + fi > arna i

| **gwrando ar Cadi** | **chwilio am y tedi** | **taflu pêl at Dafydd** |
|---|---|---|
| arna i | amdana i | ata i |
| arnat ti | amdanat ti | atat ti |
| arno fe / fo | amdano fe / fo | ato fe / fo |
| arni hi | amdani hi | ati hi |
| arnon ni | amdanon ni | aton ni |
| arnoch chi | amdanoch chi | atoch chi |
| arnyn nhw | amdanyn nhw | atyn nhw |

| **gan Rhys** | **dweud wrth bawb** | **rhaid i Siwan** |
|---|---|---|
| gennyf fi / gen i | wrtho i / wrtha i | i mi |
| gennyt ti / gen ti | wrthot ti | i ti |
| ganddo fe / fo | wrtho fe / fo | iddo fe / fo |
| ganddi hi | wrthi hi | iddi hi |
| gennyn ni | wrthyn ni | i ni |
| gennych chi | wrthych chi | i chi |
| ganddyn nhw | wrthyn nhw | iddyn nhw |

**Defnyddio 'i'**

Fel arfer, mae'r arddodiad **i** yn dilyn **rhaid**, **cyn**, **rhag ofn**, **wrth**, **ar ôl**, e.e.

Mae'n rhaid i Emyr wneud cylch yn y gliter.

Cyn i Dafydd ddechrau.

Ar ôl i Cadi orffen.

Os yw **i** yn cael ei ddilyn gan ragenw (fi, ti, fe, hi), bydd rhaid defnyddio'r terfyniad cywir ar **i**, e.e.

Bydd rhaid **iddo fe w**neud triongl yn y tywod.

Cyn **iddo fe dd**echrau/ Cyn iddo fo **dd**echrau.

Ar ôl **iddi hi o**rffen.

Mae'r arddodiad **i** bob amser yn achosi treiglad i'r ferf sy'n dilyn, e.e.

Bydd yn rhaid i Emyr **w**neud hecsagon.

Roedd yn rhaid iddyn nhw **d**ynnu llun cylch.



**Defnyddio ‘gyda’ a ‘gan’**

Pan rydym yn trafod salwch, rydym yn defnyddio patrymau **gyda** yn y de a **gan** yn y gogledd os yw’r rhan o’r corff yn cael ei enwi, e.e.

| DE | GOGLEDD |
| --- | --- |
| Mae pen **t**ost gyda fi. | Mae ganddi hi/gynni hi **g**ur pen. |
| Does dim bola tost gyda fe. | Does ganddo fo/gynno fo ddim poen bol. |

Sylwch fod **tost > dost** os yw’n dilyn enw benywaidd unigol ond ddim y lluosog, e.e.

Does dim **t**roed **d**ost gyda fe.
Mae gen i goes **d**ost.
Mae ganddi hi draed **t**ost.

Eto, sylwch fod **treiglad meddal** yn dilyn ffurfiau **gan**, e.e.

Mae gen i **b**igyn clust.
Oes ganddi hi **b**en tost?

Os dydy rhan y corff ddim yn cael ei enwi, rydym yn defnyddio **ar** gan ddilyn y patrwm yma, e.e.

Mae annwyd **arna** i.
Does dim peswch **arnoch** chi.





**Lleoli arddodiaid**

Dydyn ni ddim yn gallu gorffen brawddeg neu gymal gydag arddodiad syml.

Ble mae e'n dod **o**? ×

Beth mae'r llyfr **am**? ×

Beth wyt ti'n chwilio **am**? ×

Mae'n rhaid i chi osod yr arddodiad syml ar ddechrau'r frawddeg :

**O** ble mae e'n/o'n dod? ✓

**Am** beth mae'r llyfr? ✓

**Am** beth wyt ti'n chwilio? ✓

Gallwch hefyd redeg yr arddodiad ar ddiwedd y frawddeg:

Beth mae'r llyfr amdano? ✓

Beth wyt ti'n chwilio amdano? ✓

Dyma'r **llyfr** rydw i'n chwilio **amdano**. ✓

Dyma'r **got** roeddwn i'n chwilio **amdani**. ✓

Cofiwch wrth gyfeirio yn ôl at rywbeth ar ddechrau'r frawddeg fod yn rhaid i chi ddefnyddio'r person cywir wrth redeg yr arddodiad.

**llyfr** = enw gwrywaidd > amdano fe

**cot** = enw benywaidd > amdani hi





Uned 8

**Ffocws iaith**

Defnyddio rhifolion.

Defnyddio rhifolion gydag enw benywaidd a gwrywaidd.

Defnyddio trefnolion.

Rhai rheolau treiglo wrth ddefnyddio rhifolion a threfnolion.

**Rhifolion ac enwau unigol**

| | |
|---|---|
| Sawl llyfr sy ar y bwrdd? | **Un** llyfr sy ar y bwrdd.<br>Mae un llyfr ar y bwrdd. |
| Sawl tedi mawr sy yma? | **Dau d**edi mawr sy yma.<br>Mae dau **d**edi mawr yma. |
| Sawl sgwâr coch sy ar y wal? | **Tri** sgwâr coch sy ar y wal.<br>Mae tri sgwâr coch ar y wal. |
| Sawl bachgen sy yn y dosbarth? | **Pedwar** bachgen sy yn y dosbarth.<br>Mae pedwar bachgen yn y dosbarth. |
| Sawl wyneb sy gan y ciwb? | **Pump**.<br>**Pum** wyneb sy gan y ciwb. |
| Sawl cornel sy gan yr hecsagon? | **Chwech.**<br>**Chwe ch**ornel sy gan yr hecsagon. |



| | |
|---|---|
| Sawl dol oedd yna? | **Un dd**ol oedd yna.<br>Roedd un **dd**ol yna. |
| Sawl cath fach oedd yn y fasged? | **Dwy g**ath **f**ach oedd yn y **f**asged.<br>Roedd **d**wy **g**ath fach yn y **f**asged. |
| Sawl merch oedd yn y llun? | **Tair** merch oedd yn y llun.<br>Roedd tair merch yn y llun. |
| Sawl stori ddarllenoch chi neithiwr? | **Pedair.**<br>Darllenais i bedair stori neithiwr. |

**Rhifolion ac enwau lluosog**

| | |
|---|---|
| Faint o gathod sydd yn y llun? | Pump o gathod. |
| Faint o gylchoedd coch sydd ar y bwrdd? | Chwech o gylchoedd coch. |
| Faint o fechgyn oedd yn y dosbarth? | Saith o fechgyn. |
| Faint o ferched oedd yn y dosbarth? | Wyth o ferched. |





**Y fannod (y/yr/’r) + rhifolion**

Mae’r **dd**wy ferch yn dawnsio.

Mae’r **dd**au fachgen yn chwarae yn y twba dŵr.

Mae’r tri mochyn bach yn adeiladu tŷ o wellt.

Mae’r tair hwyaden yn arnofio ar y dŵr.

Mae’r pedwar mwgwd ar y bwrdd yn barod.

Mae’r pedair carreg wedi suddo i waelod y twba.

**Trefnolion**

| | |
|---|---|
| cyntaf | Ti sydd gyntaf. |
| ail | Cer/Dos di yn ail. |
| trydydd | Cei di fynd yn drydydd. |
| pedwerydd | Pwy sydd eisiau/isio mynd yn bedwerydd? |





| **Enwau gwrywaidd** | **Enwau benywaidd** |
|---|---|
| Dyma’r bachgen cyntaf. | Dyma’r **f**erch **g**yntaf. |
| Dyma’r ail **l**yfr. | Dyma’r ail **b**êl. |
| Dyma’r trydydd mochyn. | Dyma’r **d**rydedd **g**ân. |
| Dyma’r pedwerydd llun. | Dyma’r **b**edwaredd **dd**oli. |





## Geirfa

**Enwau gwrywaidd** *Masculine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| mwgwd/mygydau | masks |
| wyneb/au | face/s |

**Enwau benywaidd** *Feminine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| carreg/cerrig | stone/s |

**Berfau** *Verbs*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| arnofio | to float |
| suddo | to sink |



**Gramadeg**

**Rhifolion ac enwau**

Gan fod enwau unigol yn wrywaidd neu'n fenywaidd mae'n rhaid defnyddio rhifolion gwrywaidd neu fenywaidd gyda nhw:

tri bachgen, tri mwgwd

dwy ferch, dwy het

Dyma'r rhifolion gwrywaidd.

| | |
|---|---|
| 1 | un |
| 2 | dau |
| 3 | tri |
| 4 | pedwar |
| 5 | pump |
| 6 | chwech |
| 7 | saith |
| 8 | wyth |
| 9 | naw |
| 10 | deg |



Dyma'r rhifolion benywaidd.

| | |
|---|---|
| 2 | dwy |
| 3 | tair |
| 4 | pedair |

**Rhifolion a threiglo**

Mae'r rhifolion yn achosi treigladau.

Gydag enw **gwrywaidd** dilynwch y patrwm hwn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| un | > | dim treiglad | un ci |
| dau | > | treiglad meddal | dau **g**i |
| tri | > | treiglad llaes | tri **ch**i |
| pedwar | > | dim treiglad | pedwar ci |
| pump | > | dim treiglad | pum ci |
| chwech | > | treiglad llaes | chwe **ch**i |





Gydag enw **benywaidd** dilynwch y patrwm hwn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| un | > | treiglad meddal | un **g**ath |
| dwy | > | treiglad meddal | dwy **g**ath |
| tair | > | dim treiglad | tair cath |
| pedair | > | dim treiglad | pedair cath |
| pump | > | dim treiglad | pum cath |
| chwech | > | treiglad llaes | chwe **ch**ath |

Dydy enwau benywaidd sy'n dechrau gyda **ll** a **rh** ddim yn treiglo ar ôl **un** (hyd yn oed os ydyn nhw'n enwau benywaidd), e.e.

un llaw    un rhestr

**Pump**: **pum** yw'r ffurf gywir o flaen enw, e.e.
pum munud, pum llyfr

**Chwech: chwe** yw'r ffurf gywir o flaen enw, e.e.
chwe munud, chwe cheiniog





**Y Fannod a Rhifolion**

Dydy'r rhifolion – hyd yn oed y rhai benywaidd – ddim yn treiglo **ar ôl y fannod**, e.e.

| | |
|---|---|
| y pedwar bys | y tri myfyriwr |
| y pedair coeden | y tair merch |

Yr eithriadau yw **dau** a **dwy**.

Mae **dau** a **dwy** yn treiglo'n feddal **bob tro**! Mae dau a dwy hefyd yn achosi treiglad meddal yn yr enw sy'n dilyn (enwau gwrywaidd ac enwau benywaidd).

| | |
|---|---|
| y ddau fachgen | y ddau lyfr |
| y ddwy ddol | y ddwy gath |

**Sawl a Faint?**

Mae dwy ffordd o ofyn '*how many?*' yn Gymraeg.

Gallwch ddefnyddio **Sawl** + **enw unigol**

Sawl plentyn? Sawl siâp? Sawl cylch?

Dydy **sawl** ddim yn achosi treiglad.

Ffordd arall yw defnyddio **Faint** + **o** + **enw lluosog**

Faint o **b**lant? Faint o siapiau? Faint o **g**ylchoedd?

Cofiwch fod angen treiglad meddal yn dilyn **o**.

**Trefnolion**

Dyma restr o'r trefnolion:

| | |
|---|---|
| 1af | cyntaf |
| 2il | ail |
| 3ydd | trydydd |
| 4ydd | pedwerydd |
| 5ed | pumed |
| 6ed | chweched |
| 7fed | seithfed |
| 8fed | wythfed |
| 9fed | nawfed |
| 10 fed | degfed |



Mae dau drefnolyn benywaidd yn Gymraeg, sef:

**trydedd** (3edd)  **pedwaredd** (4edd)

Rydym yn eu defnyddio gydag enwau **benywaidd** yn unig, e.e.

trydedd ferch  pedwaredd goeden

## Trefnolion a rheolau treiglo

Dyma'r rheolau wrth ddefnyddio trefnolion gydag enwau gwrywaidd ac enwau benywaidd.

| **Trefnolion + Enw gwrywaidd** | **Trefnolion + Enw benywaidd** |
|---|---|
| Y bachgen cyntaf | Y **f**erch **g**yntaf |
| Yr ail fachgen | Yr ail **f**erch |
| Y trydydd bachgen | Y **d**ryd**edd** **f**erch |
| Y pedwerydd bachgen | Y **b**edwar**edd** **f**erch |
| Y pumed bachgen | Y **b**umed **f**erch |
| **Rheol:**<br>Treiglad meddal ar ôl *ail* yn unig | **Rheol:**<br>Treiglad meddal i'r trefnolyn a'r enw (rhif + merch) |





**Uned 9**

**Ffocws iaith**

Gofyn ac ateb cwestiynau.

| **Gofyn cwestiynau caeëdig** (ateb syml un gair yn bosib) | **Ateb Yes/No** |
|---|---|
| Oes tair arth yn y stori hon? | Oes/Nac oes. |
| Ydy'r goeden yn wyrdd? | Ydy/Nac ydy. |
| Ydy pawb yn barod? | Ydyn/Nac ydyn. |
| Oedd hi'n stori dda | Oedd/Nac oedd. |
| Ga i fynd i'r tŷ bach os gwelwch yn dda? | Cei/Na chei. |
| Est ti i'r parc ddoe? | Do/Naddo. |
| Hon ydy eich hoff stori? | Ie/Nage / Ia/Naci. |
| Dy got di ydy hon? | Ie/Nage / Ia/Naci. |
| Hoffech chi/ Liciech chi ddarllen stori? | Hoffwn/Hoffen / Liciwn/Licien. |





**Gofyn cwestiynau agored** (ddim yn gallu eu hateb gyda 'yes' neu 'no')

| | |
|---|---|
| Beth ydy teitl y stori hon? | 'Dewin a Doti yn mynd am dro' ydy teitl y stori. |
| Pwy yw hwn? | Dewin yw hwn. |
| Pwy ydy'r prif gymeriad? | Doti ydy'r prif gymeriad. |
| Pwy yw'r cymeriad gorau? | Dewin yw'r cymeriad gorau. |
| Pa ddiwrnod ydy hi heddiw? | Dydd Mawrth ydy hi heddiw. |

| | |
|---|---|
| Beth mae Doti yn ei wneud? | Mae Doti yn chwarae yn y parc. |
| Ble mae Dewin yn mynd? | Mae Dewin yn mynd ar ei wyliau. |
| Ble maen nhw'n cuddio? | Maen nhw'n cuddio tu ôl i'r goeden. |
| Sut mae e'n teimlo? | Mae e'n teimlo'n ddigalon. |
| Sut maen nhw'n teimlo? | Maen nhw'n teimlo'n hapus. |
| Pam mae e'n drist? | Mae e'n drist achos mae e'n teimlo'n dost. |



| | |
|---|---|
| Pwy sy'n dewis llyfr heddi? | Fi sy'n dewis llyfr heddiw. |
| | Dw i'n dewis llyfr. |
| Pwy sy'n hoffi'r stori hon? | Jac sy'n hoffi'r stori hon. |
| | Mae Jac yn hoffi'r stori hon. |
| Beth sy ar y clawr? | Mae llun o Dewin a Doti ar y clawr. |
| Beth sy'n digwydd yn y llun? | Mae Dewin a Doti ar y traeth. |
| Beth sy'n digwydd ar y dechau? | Mae Dewin a Doti yn mynd i'r traeth. |
| Beth sy'n digwydd ar y diwedd? | Mae Dewin a Doti yn chwarae ar y traeth. |

| | |
|---|---|
| Pwy oedd yn hoffi'r stori yna? | Rhys oedd yn hoffi'r stori. |
| | Roedd Rhys yn hoffi'r stori. |
| Pwy oedd yn teimlo'n ofnus yn y stori? | Roedd Alys yn teimlo'n ofnus. |
| Beth oedd yn digwydd? | Roedd y plant yn chwarae ar lan y môr. |
| Beth fydd yn digwydd nesaf? | Bydd y plant yn nofio yn y môr nesaf. |





| | |
|---|---|
| Pa un yw'r stori orau? | Hon yw'r stori orau. |
| Pa un yw'r cymeriad gorau? | Dewi ydy'r cymeriad gorau. |
| Pa **g**ymeriad wyt ti'n ei hoffi? | Dw i'n hoffi'r arth. |
| Pa **g**ymeriad oeddet ti'n ei hoffi orau? | Roeddwn i/ Ro'n i'n hoffi'r ci mawr. |
| Pa **l**yfr hoffet ti ei ddarllen nesa? | Hoffwn i ddarllen am Dewin. |
| Pa **g**ân hoffet ti ei **ch**anu? | Hoffwn i ganu... Mi Welais Jac y Do. |
| Pa un wyt ti eisiau ei ddarllen? | Hwn. / Dw i eisiau darllen y llyfr hwn. |



## Geirfa

**Enwau benywaidd** ***Feminine nouns***

| **Cymraeg** | **Saesneg** |
|---|---|
| arth/eirth | bear/s |

**Enwau gwrywaidd** ***Masculine nouns***

| **Cymraeg** | **Saesneg** |
|---|---|
| cymeriad/au | characters/s |

**Gramadeg**

**Ateb cwestiynau**

Wrth ateb cwestiynau caeëdig mae'n rhaid i'r ateb fod yr un amser â'r cwestiwn ac mae'n rhaid defnyddio'r person cywir.

Mae'r cliw ar gyfer yr ateb yn y cwestiwn ei hun, e.e.

**Oes** brawd gyda ti? **Oes.**
**Wyt ti**'n hoffi paentio? **Ydw.**
**Hoffet** ti ganu cân? **Hoffwn.**
**Oedd** hi'n oer ddoe? **Oedd.**
**Fyddi** di'n mynd i'r parc? **Byddaf.**

**Ie a Nage / Ia a Na (Naci)**

Rydym yn defnyddio'r atebion yma pan does dim gair cwestiwn ar y dechrau, e.e. Ble? Pwy? Pam? neu ferf, e.e. Est ti? Oeddech chi? Oes? yn dechrau'r cwestiwn.

Dyma enghreifftiau:

| | |
|---|---|
| Roced ydy hwn? | Ie, roced ydy e. |
| Roced oedd e? | Nage, nid roced oedd e. |
| Ti sy'n canu? | Ie, fi sy'n canu. |





**Gofyn cwestiynau agored**

Wrth holi cwestiynau agored, bydd rhai geiriau cwestiwn yn achosi treiglad.

Edrychwch ar y tabl.

| | | |
|---|---|---|
| Sut + berf | | Sut daeth e yma? |
| Sut + enw | + treiglad meddal | Sut **g**ogyddes yw hi? |
| Pryd + berf | | Pryd clywaist ti? |
| Ble + berf | | Ble digwyddodd o? |
| Beth + berf | + treiglad meddal | Beth **w**elon nhw? |
| Faint + berf | + treiglad meddal | Faint **g**ollodd hi? |
| Pwy + berf | + treiglad meddal | Pwy **f**rifodd ei droed? |
| Pa + enw | + treiglad meddal | Pa **b**lant oedd yno? |

Wrth ofyn cwestiynau **Beth**, **Pwy**, **Faint** mae'n rhaid defnyddio **ei** cyn y berfenw ac rydym yn treiglo'n feddal. Weithiau dydy **ei** ddim yn cael ei ddweud ar lafar ond mae'r treiglad yn aros oherwydd dylanwad yr **ei** sy'n cyfeirio yn ôl.

Beth wyt ti'n hoffi ei **w**neud? > Beth wyt ti'n hoffi **w**neud?

Pwy oeddet ti eisiau ei **w**eld? > Pwy o't ti eisiau **w**eld?

Faint mae hi'n ei **b**rynu? > Faint mae hi'n **b**rynu?





Wrth ofyn cwestiynau **Pa** bydd yn rhaid gwybod a yw'r ei yn cyfeirio'n ôl at enw benywaidd neu enw gwrywaidd.

> lliw – enw gwrywaidd felly ei (*his*) treiglad meddal
> Pa **liw** wyt ti wedi ei **dd**ewis?
> cân – enw benywaidd felly ei *(her)* treiglad llaes
> Pa **gân** fyddi di'n ei **ch**anu?

**Pa /Pwy**

Mae **Pa** yn achosi treiglad meddal, e.e. Pa **b**lant? Pa **f**is? Pa **l**yfr?

Os ydych chi'n disgwyl 'peth' yn hytrach na 'pherson' yn yr ateb, bydd y cwestiwn yn dechrau â **Pa?** e.e.

> Pa lyfr sydd gyda ti? Rala Rwdins sydd gyda fi.

Os ydych chi'n disgwyl person yn yr ateb, bydd y cwestiwn yn dechrau â **Pwy?** e.e.

> Pwy sy'n mynd i'r parti? Jac a Gwenno sy'n mynd i'r parti.
> Pwy raglen welaist ti ddoe? X
> Pa raglen welaist ti ddoe? ✓

**Mae/ydy**

Wrth ofyn cwestiynau agored, cofiwch fod y ferf yn yr ateb yn cyd-fynd â'r ferf yn y cwestiwn. Bydd hyn yn eich helpu hefyd i ddewis y ferf gywir, e.e.

Ble mae Cadi yn cuddio? Mae hi'n cuddio o dan y bwrdd.
Ble ydy Cadi yn cuddio? X





**Uned 10**

**Ffocws iaith**

Defnyddio **mewn** ac **yn.**

Defnyddio arddodiaid cyfansawdd, e.e. ar ôl, o flaen.

Rhedeg arddodiaid cyfansawdd.

**Mewn / Yn**

| | |
|---|---|
| Ble mae Dewin? | Mae e mewn parti pen-blwydd. |
| | Mae e mewn dosbarth gymnasteg. |
| | Mae e mewn dosbarth pêl-droed. |
| Ble roedd Doti? | Roedd hi yn y parc. |
| | Roedd hi'n eistedd yng nghefn yr ystafell. |
| | Roedd hi ym mharti pen-blwydd Dewin. |
| Ym mha grŵp mae Catrin? | Mae hi yn y grŵp glas heddiw. |
| Sut byddan nhw'n gweithio? | Byddan nhw'n gweithio mewn grwpiau. |



**Arddodiaid cyfansawdd**

| | |
|---|---|
| Ble mae Dewi a Doti yn cuddio? | Maen nhw'n cuddio o dan y bwrdd. |
| | Maen nhw'n cuddio y tu ôl i'r goeden. |
| | Maen nhw'n cuddio y tu mewn i'r bocs mawr. |
| Ble mae'r bêl goch? | Mae hi wrth ochr y bocs glas. |
| | Mae hi uwchben y cwpwrdd. |
| | Mae hi o flaen y twba dŵr. |
| | Mae hi ar ben y fasged. |

Dewch i sefyll o flaen Modryb Sue.

Dewch i sefyll o fy mlaen i.

Dewch i sefyll o'i flaen e/o.

Dewch i sefyll o'i blaen hi.

Dewch i sefyll o'u blaen nhw.

Rhedwch o gwmpas Rhys.

Rhedwch o'i gwmpas e/o.



Rho’r gadair wrth ochr Rhys.

Rho’r gadair wrth dy ochr di.

Rho’r gadair wrth ei ochr e/o.

Rhowch y gadair wrth ymyl Catrin.

Rhowch y gadair wrth ei hymyl hi.

Rhowch y gadair wrth eu hymyl nhw.

Rhedwch ar ôl Cadi.

Rhedwch ar ei hôl hi.

Rhedwch ar eu hôl nhw.

Paid â chwerthin am ben neb.

Paid â chwerthin am fy mhen i.

Paid â chwerthin am ei phen hi.

Paid â thorri ar draws neb.

Paid â thorri ar ei draws e/o.

Paid â thorri ar eu traws nhw.



Dw i'n gwneud gweithgaredd ar fy mhen fy hun.

Mae hi'n gwneud gweithgaredd ar ei phen ei hun.

Roedd e'n/o'n gwneud gweithgaredd ar ei ben ei hun.



## Geirfa

**Enwau gwrywaidd** *Masculine nouns*

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| gweithgaredd/au | activity/activities |



**Gramadeg**

**Defnyddio 'mewn' ac 'yn'**

Mae **mewn** (*in a)* yn cyfeirio at enwau amhenodol (*non-specific),* e.e.

mewn siop

mewn tref (unrhyw dref)

Does dim treiglad ar ôl **mewn**.

Mae **yn** (*in*) yn cyfeirio at enwau penodol (*specific),* e.e.

yn Siop y Pentref, yn y siop

yn nhref Caerfyrddin, yn nhref Caernarfon, yn y dre (tref benodol)

Mae treiglad trwynol yn dilyn **yn** (*in*), e.e.

yn + cefn y dosbarth = **yng ngh**efn y dosbarth

yn + dosbarth Mrs Jones = **yn n**osbarth Mrs Jones

**Gwallau Cyffredin Mewn/Yn**

Weithiau mae pobl yn cael trafferth wrth gyfieithu *'in'* i'r Gymraeg ac maen nhw'n camddefnyddio **mewn** ac **yn**. Cofiwch dydych chi ddim yn gallu defnyddio **mewn** gyda'r fannod sef **y**, e.e.

> Mae e'n gweithio mewn y grŵp glas. ×
> Mae e'n gweithio mewn grŵp. ✓ (amhenodol)
> Mae e'n gweithio yn y grŵp  glas. ✓ (penodol)

Defnyddiwch y grid isod er mwyn eich helpu i benderfynu ai **mewn** neu **yn** sydd ei angen arnoch chi wrth ddefnyddio rhai ymadroddion anodd.

**Mewn**

| **Saesneg** | **Patrwm cywir** | **Cliw** |
|---|---|---|
| in Welsh books | mewn llyfrau Cymraeg | UNIGOL = mewn llyfr Cymraeg (*in a Welsh book*) |
| in some classes | mewn rhai dosbarthiadau | rhai – amhenodol bob tro |
| in specific books | mewn llyfrau penodol | UNIGOL – mewn llyfr penodol (*in a specific book*) |
| in order | mewn trefn | *in an order* |



**Yn**

| Saesneg | Patrwm cywir | Cliw |
|---|---|---|
| in every Welsh book | ym mhob llyfr Cymraeg | pob = penodol |
| in our Welsh class | yn ein dosbarth Cymraeg | ein = penodol |
| in the specific book | yn y llyfr penodol | Defnyddio ‘y’ = penodol |
| in the correct order | yn y drefn gywir | Defnyddio ‘y’ = penodol |

**Arddodiaid Cyfansawdd**

Mae arddodiad cyfansawdd yn cynnwys mwy nag un elfen. Gall y rhain weithiau gael eu hysgrifennu ar ffurf un gair:

er mwyn    ar ôl    ar gyfer    am ben    o gwmpas

uwchben    ar draws    o flaen    ynghylch

Er mwyn gwneud arddodiad cyfansawdd yn bersonol mae’n rhaid rhannu’r ddau air a defnyddio’r rhagenwau blaen **fy, dy, ei, ei, ein, eich, eu** rhwng y ddau air, e.e.

gair 1 + rhagenw + gair 2
ar ôl > ar **ei** ôl e/o
am ben > am **ei** phen hi
ar draws > ar **eich** traws chi



**Arddodiaid Cyfansawdd Personol a'r Treigladau**

Cofiwch fod y rhagenwau blaen yn achosi'r treigladau canlynol:

| **Rhagenw blaen** | **Treiglad** |
|---|---|
| fy | trwynol |
| dy | meddal |
| ei (gwrywaidd) | meddal |
| ei (benywaidd) | llaes<br>+h o flaen<br>llafariad |
| ein | dim treiglad<br>+h o flaen<br>llafariad |
| eich | dim treiglad |
| eu | dim treiglad<br>+h o flaen<br>llafariad |

Bydd y treigladau arferol yn dilyn y rhagenwau hyn ond cofiwch mai treiglo'r ffurf gysefin (*original)* sydd angen i ni ei wneud, e.e.

ar draws = ar + traws



Mae **ar** yn achosi treiglad meddal felly mae **traws** wedi newid i **draws**.

Y ffurf gysefin felly yw ‘**t**raws’.

Wrth osod y rhagenw yn y canol, y ffurf gysefin sy’n treiglo, e.e.

ar fy **nh**raws i (treiglad trwynol ar ôl **fy**)

ar dy **d**raws di (treiglad meddal ar ôl **dy**)

ar ei **th**raws hi (treiglad llaes ar ôl **ei** benywaidd)

Rydym yn gosod y rhagenwau mewnol **’m, ’th, ’i, ’n, ’ch, ’u** ar ôl llafariaid. Erbyn hyn, mae **‘m** a **‘th** yn ffurfiol iawn.

fy = o’**m** cwmpas i (does dim treiglad gyda **’m** fel sydd gyda **fy**)
dy = o’**th** gwmpas di
ei= o’**i** gwmpas e
ei= o’**i** chwmpas hi
ei= o’**n** cwmpas
eich = o’**ch** cwmpas
eu= o’**u** cwmpas

Does dim treiglad ar ôl **’m** ond mae’r gweddill yn achosi yr un treiglad â’r rhagenwau blaen.

Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

Cymraeg Gwaith
Work Welsh





**Gweithgareddau**

**Gweithgaredd 1**

Cyfieithwch y cwestiynau canlynol ac yna atebwch y cwestiwn.

i. How is the weather today?
ii. Will it be sunny tomorrow?
iii. How was the weather yesterday?
iv. Was it freezing yesterday?
v. How do you come to nursery in the rain?
vi. Was it sunny in the summer?
vii. Will it be cold in the winter?
viii. Is it cloudy today?
ix. Will it be windy tomorrow?

**Gweithgaredd 2**

**Cam 1**: Rhowch **yn** o flaen y canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| cawodlyd | rhewllyd | mwyn | cyfnewidiol |
| cymylog | braf | glawio | gwyntog |
| trist | heulog | hapus | blinedig |
| cyffrous | niwlog | oer | ofnus |



**Cam 2**: Rhowch y geiriau **heddiw**, **ddoe** ac **yfory** mewn dis sbwng. Taflwch y dis er mwyn dynodi amser y ferf ac yna gwnewch gwestiwn yn yr amser cywir gan ddefnyddio’r grid uchod. Gall y person ar chwith ateb y cwestiwn.

heddiw + cawodlyd = Ydy hi’n gawodlyd heddiw?

ddoe + trist = Oeddet ti’n drist ddoe?

yfory + mwyn = Fydd hi’n fwyn yfory?

**Gweithgaredd 3**

Gorffennwch y cwestiwn drwy ychwanegu’r berfenwau. Cofiwch dreiglo os oes angen.

Beth wyt ti eisiau ei …?

| | | | |
|---|---|---|---|
| gwneud | darllen | paentio | bwyta |
| coginio | yfed | gwisgo | dysgu |

Mae modd newid amser y ferf hefyd.

Beth oeddet ti eisiau ei…?

Beth fyddi di eisiau ei …?

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Cymraeg Gwaith Work Welsh



**Gweithgaredd 4**

Llenwch y grid canlynol:

| **Cadarnhaol** | **Cwestiwn** | **Negyddol** |
|---|---|---|
| Roeddwn i'n hapus iawn.<br><br>Ro'n i'n | | |
| | Ydy e'n hoffi canu a dawnsio? | |
| | | Fyddwch chi ddim yn mynd allan i chwarae heddi. |
| | Oeddet ti'n hoffi'r stori?<br><br>O't ti'n ... | |
| Rydyn ni'n mynd i ddarllen stori newydd. | | |
| | | Doedd hi ddim yn mwynhau adeiladu castell tywod. |





**Gweithgareddau yn y lleoliad**

1. Meddyliwch am gwestiynau yn y presennol, amherffaith a'r dyfodol ar gyfer y cyfnodau/ardaloedd canlynol:
   Amser cofrestru
   Ardal chwarae rôl
   Amser snac

2. Gwnewch set o gardiau fflach am y tywydd neu dewch o hyd i set o luniau sy'n dangos y tywydd. Defnyddiwch y cardiau i ymarfer geirfa tywydd gyda'r plant.
   Defnyddiwch y cardiau i ofyn 'Sut mae'r tywydd yn y llun?' er mwyn i'r plant ymarfer defnyddio 'Mae hi'n…'
   Yna gofynnwch 'Sut oedd y tywydd yn y llun?' er mwyn i'r plant ymarfer defnyddio 'Roedd hi'n…'



**Gweithgareddau**

**Gweithgaredd 1**

Llenwch y bylchau yn y tabl.

| | canu | golchi | mwynhau | gweld | chwarae |
|---|---|---|---|---|---|
| fi | | | | | |
| ti | | | | | |
| fe/ fo | | | | | |
| hi | | | | | |
| ni | | | | | |
| chi | | | | | |
| nhw | | | | | |



**Gweithgaredd 2**

Rhowch y terfyniad cywir ar fonau'r berfau.

1. Can___ hi
2. Rhed___ i
3. Gwel___ i
4. Ysgrifenn___ e/o
5. Cerdd___ ni
6. Pryn___ chi
7. Clyw___ ti
8. Cyrhaedd___ chi
9. Darllen___ nhw
10. Adeilad___ nhw



**Gweithgaredd 3**

Cam 1: Defnyddiwch ddis rhagenwau i ymarfer rhedeg y berfau yn y gorffennol cryno.
Cam 2: Ychwanegwch y gwrthrych er mwyn ymarfer treiglo gwrthrych berf gryno.
Cam 3: Defnyddiwch y cardiau berfenw a'r gwrthrych i greu cwestiynau.

| | | | |
|---|---|---|---|
| gweld | llew | clywed | sŵn |
| darllen | llyfr | paentio | llun |
| torri | cerdyn | adeiladu | tŵr |
| mwynhau | y ffilm | dringo | y ffrâm |
| yfed | llaeth | coginio | cacen |
| canu | cân | chwarae | pêl-droed |
| gwisgo | cot | bwyta | brechdan |



**Gweithgareddau yn y lleoliad**

1. Lluniwch restr o gwestiynau yn y gorffennol i'w gofyn yn ystod Amser Cylch er mwyn trafod digwyddiadau yn y gorffennol gyda'r plant.
2. Lluniwch restr o gwestiynau caeëdig yn y gorffennol fydd yn gofyn i'r plant ymarfer ateb Do/ Naddo. Gallwch fynd gam ymhellach a gofyn iddyn nhw ateb yn llawn,

   e.e. Fwytaist ti dost i frecwast heddiw? Do, bwytais i dost / Naddo, fwytais i ddim tost.





**Gweithgareddau**

**Gweithgaredd 1**

Meddyliwch pryd byddech chi'n defnyddio'r ffurfiau hyn yn ystod eich sesiynau.

Lluniwch restr o gwestiynau y byddech yn gallu eu gofyn yn ystod Amser Cofrestru ac Amser Cylch.

**Gweithgaredd 2**

Trowch y brawddegau a'r cwestiynau hyn i'r amser gorffennol.

1. Wyt ti'n cael sglodion a physgod i de?
2. Dw i'n mynd i Abertawe i weld y gêm.
3. Mae o'n dwad i chwarae efo fi ar ôl te.
4. Ydyn nhw'n gwneud bwyd i'r parti?
5. Dwyt ti ddim yn cael mynd.
6. Dydyn ni ddim yn dod i'r parc.
7. Wyt ti'n mynd i barti dydd Sadwrn?
8. Maen nhw'n gwneud teisen i de.
9. Dw i ddim yn cael cinio ysgol.
10. Mae hi'n gwneud castell tywod.



**Gweithgaredd 3**

Dewiswch symbol O neu X. Gyda phartner, taflwch ddis rhagenwau (e.e. fi, ti, o/e/hi, ni, chi, nhw), dewiswch sgwâr, yna dwedwch ffurf gywir y ferf. Os ydych yn gywir, rhowch eich symbol yn y sgwâr. Yr enillydd ydy'r person sy'n llwyddo i gael 3 symbol mewn rhes.

Dechreuwch gyda'r ffurf gadarnhaol yna chwaraewch eto gan lunio brawddegau negyddol ac yna gwestiynau.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| cael | gwneud | mynd | dod | bod | cael |
| gwneud | mynd | dod | bod | cael | gwneud |
| mynd | dod | bod | cael | gwneud | mynd |
| dod | bod | cael | gwneud | mynd | dod |



**Gweithgareddau yn y lleoliad**

1. Gwnewch restr o'r cwestiynau sy'n cynnwys ffurfiau gorffennol **mynd**, **dod**, **cael** a **gwneud** rydych wedi eu defnyddio gyda'r plant yn ystod yr wythnos. Defnyddiwch y patrymau yma'n aml.

2. Gweithgaredd ymarfer ateb **Do / Naddo** i gwestiynau yn y gorffennol.

   Gallwch drafod newyddion y penwythnos er mwyn rhoi cyfle i'r plant ymarfer ateb **Do / Naddo** i gwestiynau yn y gorffennol.

   Paratowch becyn o luniau, e.e. parc, pwll nofio, caffi, traeth, tre, siop er mwyn rhoi sbardun i drafod, e.e. parc

| | |
|---|---|
| Est ti i'r parc dros y penwythnos? | Do, es i i'r parc. |
| | Naddo, es i ddim i'r parc. |
| Est ti ar y llithren? | Do/ Naddo. |
| Ges ti ti amser da? | Do, Ces i amser da. |
| | Naddo, ches i ddim amser da. |



**Gweithgareddau**

**Gweithgaredd 1**

Cam1: Newidiwch yr unigol i'r lluosog a'r lluosog i'r unigol. Cofiwch am y treigladau.

| **Unigol** | **Lluosog** |
|---|---|
| dy got | eich brodyr |
| Paid! | Rhedwch |
| Cer/ Dos | eich bagiau |
| Gwisga | eich cadeiriau |
| Darllena | Dewch yma |
| dy chwaer | Edrychwch |
| dy deulu | Cerddwch |
| Cana | eich cotiau |
| dy lyfr | Gwrandewch |
| dy ffedog | eich pegiau |

Cam 2: Defnyddiwch yr uchod i lunio gorchmynion llawn ar gyfer y dosbarth.



**Gweithgaredd 2**

Mae sawl ffordd o ddweud wrth blant beth i'w wneud. Edrychwch ar linell gyntaf y grid. Dilynwch y patrwm i lenwi'r bylchau gwag.

| **Golchwch eich dwylo** | **Rhaid i chi olchi eich dwylo** | **Peidiwch â golchi eich dwylo** | **Dim golchi dwylo** |
|---|---|---|---|
| Gwisgwch eich cotiau | | | |
| | | Peidiwch â siarad | |
| | | | Dim gwthio |
| | Rhaid i chi wrando | | |
| Taclusa'r bwrdd | | | |
| | Rhaid i chi daflu'r bêl | | |
| | | | Dim gweiddi |
| | | Paid â sblasio | |
| | | Paid â mynd allan | |
| Cerdda'n gyflym | | | |



**Gweithgaredd 3**

Meddyliwch am orchmynion ar gyfer y canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Amser cofrestru | Amser cylch | Amser stori | Amser snac |
| Amser canu | Ffarwelio | Ardal adeiladu | Ardal 'ar ben bwrdd' |

**Gweithgaredd yn y lleoliad**

1. Chwaraewch gêm 'Mae Seimon yn dweud' gyda'r plant, e.e. 'Mae Seimon yn dweud "neidiwch fel mwnci"'.
2. Paratowch restr o'r gorchmynion rydych yn eu defnyddio amlaf gyda'r plant. Sicrhewch eich bod yn gwybod yr unigol a'r lluosog. Ceisiwch ddefnyddio o leiaf pum gorchymyn gwahanol gyda'r plant yn unigol ac yn lluosog wrth wneud gweithgareddau gwahanol.



**Gweithgareddau**

**Gweithgaredd 1**

Llenwch y grid canlynol. Bydd yn rhaid i chi benderfynu a yw’r enw yn enw gwrywaidd, benywaidd neu’n lluosog. Cofiwch y rheolau treiglo.

| **Enw** | **Rhowch y fannod (y/yr) o flaen yr enw** | **Rhowch ansoddair (disgrifiad) ar ôl yr enw** |
|---|---|---|
| siwmper | | |
| cot | | |
| powlen | | |
| llestri | | |
| cotiau | | |
| bocs | | |
| drws | | |
| anifail | | |
| car | | |
| deinasor | | |



**Gweithgaredd 2**

Cam 1: Rhowch yr enwau i gategorïau **hwn / hon**.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| mochyn | cot | afal | llyfr | cân |
| het | stori | tŵr | anifail | bag |
| castell | cwpan | dafad | drwm | ffedog |

Cam 2: Beth yw ffurfiau lluosog yr enwau hyn?

**Gweithgaredd 3**

Cyfieithwch y canlynol:

1. Here is the blue cup.
2. Where is the red apron?
3. Are the blue blocks in the small box?
4. Put the big bowl in the sink.
5. Where are the shells?
6. There are big circles and small circles on the table.
7. Where is the small cat hiding?
8. Here is the small chair.



**Gweithgaredd 4**

Newidiwch y geiriau mewn print tywyll i'r lluosog.

1. Oes **triongl** yn y bocs?
2. Roeddet ti wedi colli'r **sgwâr**.
3. Bydda i'n gwneud llun **seren**.
4. Ydy'r **cylch** yn fach neu'n fawr?
5. Beth yw **hwn**?
6. Dyna **batrwm** diddorol.
7. Ble mae'r **garreg honno**?
8. Dw i'n gwneud **cacen**.

**Gweithgaredd yn y lleoliad**

Gwnewch restr o eirfa yr ydych yn eu defnyddio ar gyfer:

Amser Snac

Ardal Adeiladu

Ardal Byd Bach

Ardal Cerdd a Sain

Dosbarthwch yr enwau yn enwau benywaidd, enwau gwrywaidd ac enwau lluosog.

Rhowch **y** / **yr** o flaen yr enwau, yna rhowch ansoddair ar ôl yr enwau.



**Gweithgareddau**

**Gweithgaredd 1**

Defnyddiwch yr enwau a'r ansoddeiriau i lunio brawddegau. Cofiwch am y rheolau treiglo:

Yn + ansoddair > treiglad meddal

Y + enw benywaidd > treiglad meddal

| | | |
|---|---|---|
| mwydyn | tenau | Mae'r mwydyn yn **d**enau. |
| carreg | llyfn | |
| tŵr | tal | |
| cerrig | trwm | |
| mwydyn | tew | |
| blodyn | lliwgar | |
| llun | prydferth | |
| cylch | bach | |
| piben | byr | |



**Gweithgaredd 2**

Llenwch y grid hwn.

| | **cyfartal** | **cymharol** | **eithaf** |
|---|---|---|---|
| cryf | mor gryf â | yn gryfach na | y cryfaf/ y gryfaf |
| byr | | | |
| tal | | | |
| araf | | | |
| cyflym | | | |
| uchel | | | |
| lliwgar | | | |
| isel | | | |



**Gweithgaredd 3**

Cyfieithwch y brawddegau.

1. Is the butterfly lighter?
2. The big stone is heavier than the small stone.
3. The worm was fatter than the slug.
4. The ants are the busiest minibeasts.
5. The snail will be slower than the worm.
6. Which flowers are the most colourful?
7. The spider has more legs than the frog.
8. The trees are taller this year.

**Gweithgaredd 4**

Ticiwch y brawddegau cywir, yna cywirwch y rhai anghywir.

1. Mae iâr fach yr haf yn ddelach na pryfyn.
2. Doedd y llyffant ddim yn pert.
3. Mae blodau yn bertach na phryfed.
4. P’un yw’r mwyaf flasus?
5. Mae blodyn haul yn tyfu’n gyflymach na bresych.
6. Y lili wen fach yw’r blodyn lleiaf yn fy ngardd i.
7. Dydy moron ddim yn fwy na tatws.
8. Y wlithen oedd y mwyaf araf.



**Gweithgaredd yn y lleoliad**

1. Meddyliwch am yr ansoddeiriau rydych chi’n eu defnyddio fwyaf wrth gymharu pethau yn ystod eich sesiynau. Lluniwch restr neu boster i’w roi ar y wal yn eich lleoliad.
2. Paratowch restr o gwestiynau yn cymharu gwrthrychau mewn ardaloedd gwahanol yn eich lleoliad.
3. Os oes gennych ardal y tu allan paratowch gwestiynau i’r plant fydd yn rhoi cyfle iddyn nhw ddefnyddio ansoddeiriau i gymharu’r pethau o’u cwmpas.



**Gweithgareddau**

**Gweithgaredd 1**

Torrwch y rhain yn gardiau unigol.

Cam 1: Parwch y berfau â'r arddodiaid.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gwrando | edrych | chwilio | dweud | rhoi (*rhywbeth*) |
| poeni | taflu | gofyn | mynd | dod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ar | ar | am | wrth | i |
| am | at | i | â | â |

Cam 2: Defnyddiwch y parau i greu gorchmynion neu frawddegau.



**Gweithgaredd 2**

Rhedeg arddodiaid

Defnyddiwch ddis rhagenwau i ymarfer rhedeg yr arddodiaid yn y grid.

| | | | |
|---|---|---|---|
| am | ar | at | i |
| wrth | gan/gyda | am | ar |
| at | i | wrth | gan/gyda |
| am | ar | at | i |
| wrth | gan/gyda | am | ar |



**Gweithgaredd 3**

Cywirwch y brawddegau canlynol.  Mae mwy nag un camgymeriad mewn rhai brawddegau:

1. Dw i wedi dweud i bawb ein bod ni'n darllen stori newydd.
2. Edrychwch ar fi nawr blant.
3. Pwy ddywedaist ti wrth?
4. Beth wyt ti'n chwilio am?
5. Rhaid i chi gwneud cylch bach yna mae'n rhaid i chi torri triongl mawr.
6. Dyma'r llyfr roeddwn i'n chwilio am.
7. Wyt ti wedi siarad i rhieni Rhys eto?
8. Mae'n rhaid i ti dweud wrth fe/fo.
9. Ble wyt ti'n mynd i?
10. Gwrandewch yn ofalus ar fi.
11. Roedd annwyd ar chi.



**Gweithgaredd yn y lleoliad**

Lluniwch restr o orchmynion ar gyfer ardaloedd gwahanol neu gyfnodau gwahanol o’r sesiwn ddysgu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio’r arddodiaid cywir. Dilynwch y patrwm:

> Gwrandewch ar Anti Catrin > Gwrandewch arna i
>
> Gwranda ar Anti Catrin > Gwranda arna i

Paratowch bosteri i’w rhoi ar y wal.

Defnyddiwch y gorchmynion a’r arddodiaid gyda’r plant.





**Gweithgareddau**

**Gweithgaredd 1**

**Cyfieithwch y brawddegau canlynol:**

1. How many children are here today?
2. There are two boys and four girls here today.
3. We have read two books.
4. We will sing two songs this morning.
5. How many squares were on the table?
6. There is one more song to sing.
7. How many sides does a triangle have?
8. Four stones have sunk to the bottom.
9. The three ducks are floating on the water.
10. One girl is wearing a rain coat.



**Gweithgaredd 2**


**Cywirwch y brawddegau canlynol.**

1. Mae’r dau ferch yn darllen llyfrau.
2. Mae’r tri fachgen yn chwarae yn y twba dŵr.
3. Sawl cerrig sydd yn y twba dŵr?
4. Mae’r tair mochyn bach yn adeiladu tŷ o wellt.
5. Dim ond un lyfr sydd ar y silff.
6. Dyma’r hwyaden cyntaf.
7. Mae’r pedair plât ar y bwrdd yn barod.
8. Faint o carreg sy wedi suddo i waelod y twba?
9. Dyma’r trydydd cân.
10. Lliwiwch yr ail llun yn ofalus.



**Gweithgaredd 3**

Gêm fwrdd. Defnyddiwch ddis a chownteri i chwarae'r gêm fwrdd ac adolygu cynnwys yr uned.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dechrau | Y trydydd / y pedwerydd<br>Beth yw'r patrwm ar gyfer enwau benywaidd? | Cyfrwch y moch a'u disgrifio<br> | Cyfrwch y cathod a'u disgrifio<br> | **Cyfieithwch:**<br>*The third* |
| Hwn neu hon neu hyn? Disgrifiwch y lluniau!<br>  | Sawl afal sy yma?<br> | Beth yw 4th yn Gymraeg? | 2 x stori dda<br>2 x gwers Gymraeg<br>2 x dosbarth mawr<br>2 x cylch bach | Sawl het sy yma?<br> |
| Sawl pêl sy yma?<br> | Sawl car sy yma?<br> | **Cyfieithwch**<br>How many squares are on the table? | Beth yw 2nd yn Gymraeg? | Sawl person sy'n gweithio yn y cylch meithrin? |
| Sawl llygad a sawl clust sy gyda chi? | 3 x taflen =<br>3 x gwers =<br>3 x dosbarth =<br>2 x llyfr = | Sawl cadair sy o gwmpas eich bwrdd? | Sawl ci a sawl cath sy yma?<br>  | Sawl bachgen a sawl merch sy ar y cwrs ? |
| Sawl coeden sy yma?<br> | **Cyfieithwch:**<br>*The fourth circle* | Sawl siswrn sy yma?<br> | **Cyfieithwch:**<br>*The first boy and the first girl* | Y Diwedd<br>Hwre! |



**Gweithgaredd yn y lleoliad**

Gwnewch restr o eirfa rydych yn eu defnyddio ar gyfer

- Amser cylch
- Amser snac
- Ardal adeiladu
- Ardal chwarae rôl.

Gallwch ymarfer defnyddio'r rhifolion priodol o flaen yr enwau gwrywaidd/ benywaidd.

Gosodwch y gwrthrychau gwrywaidd mewn bocs glas a gosodwch y gwrthrychau benywaidd mewn bocs coch. Gallwch ymarfer gofyn

| | |
|---|---|
| Sawl tedi sydd yn y bocs? | Dau |
| Sawl dol sydd yn y bocs? | Dwy |
| Faint o beli sydd yn y bocs? | Tair |
| Faint o lyfrau sydd yn y bocs? | Tri |





**Gweithgareddau**

**Gweithgaredd 1**

Llenwch y bylchau gyda'r gair cywir – sydd, yw/ydy, mae

1. Beth _______ coch a gwyn yn ei wneud?
2. Pwy _______'r dyn yma?
3. Beth _______ e'n ei dorri?
4. Beth _______ ar y llawr?
5. Pwy _______ 'n cuddio yn y coed?
6. Pwy _______hi'n ei ffeindio yn y goedwig?
7. Sut _______ hi'n teimlo?
8. Pam _______ e'n/ o'n drist?
9. Beth _______ o dan y bwrdd?
10. Beth _______ hwn?





**Gweithgaredd 2**

Dyma'r atebion ond beth yw'r cwestiynau?

1. Mae Aled eisiau gwneud roced.
2. Gwen sydd wedi tynnu llun yr arth.
3. Enfys ydy hi.
4. Llun deinosor ydy e/o.
5. Dillad plismon sydd yn y bocs melyn.
6. Model o gi ydy e.
7. Mae hi'n gwisgo dillad ffermwr.
8. Mae e'n cuddio yn y goedwig.
9. Y tri mochyn bach sy'n adeiladu'r tŷ.
10. Brown, melyn ac oren yw lliwiau'r dail.





**Gweithgaredd 3**

Defnyddiwch y geiriau gofynnol i greu cwestiwn.  Rhaid i'r person ar eich chwith ateb y cwestiwn cyn gofyn y cwestiwn nesaf.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Beth | Ble | Pwy | Pa |
| Pam | Sut | Beth | Ble |
| Faint | Ble | Pa | Pwy |
| Beth | Pam | Sut | Pa |



**Gweithgaredd yn y lleoliad**

1. Dewiswch un o'ch hoff lyfrau i'w ddarllen i'r plant. Darllenwch y llyfr gan baratoi un neu ddau gwestiwn ar bob tudalen. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn cwestiynau caeëdig a chwestiynau agored.

2. Meddyliwch am y cwestiynau rydych chi'n eu defnyddio amlaf wrth ddarllen stori. Gwnewch restr o gwestiynau caeëdig a'r atebion cywir sy'n cyd-fynd â nhw, e.e.
   'Ydy'r ffermwyr yn y cae?' Ateb: 'Ydy'/'Nac ydy'.
   Hoffech chi glywed y stori eto? Ateb: Hoffwn/Hoffen.



**Gweithgareddau**

**Gweithgaredd 1**

Dewiswch **mewn** neu **yn** er mwyn llenwi'r bylchau yn y brawddegau isod. Cofiwch dreiglo os oes angen.

1. Roedd dy fenig ______________poced dy got.
2. Mae'r plant ______________ ysgol Gymraeg leol.
3. Mae'r llyfrau i gyd ______________. (*in order)*
4. Roedd y llyfr _____________ cefn y cwpwrdd.
5. Rhowch y paent ___________ potiau bach.
6. Mae llawer o gymeriadau da ______________ llyfrau J.K Rowling.
7. Mae llawer o wybodaeth ________________ llyfrau Cymraeg i blant.
8. Ydy'r lluniau ______________ y drefn gywir ac ydy'r brawddegau ____________ trefn?
9. Maen nhw ___________ bagiau'r plant.
10. Mae'r plant i gyd ______________ ysgolion Cymraeg.





**Gweithgaredd 2**

Llenwch y grid isod:

| | **ar ôl** | **ar draws (ar + traws)** | **er mwyn** | **ar ben … (ar + pen)** | **am ben (am + pen)** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Fi** | Ar **fy** ôl **i** | Ar **fy** nhraws **i** | Er **fy** mwyn **i** | Ar **fy** mhen fy hun | Am **fy** mhen **i** |
| **ti** | | | | | |
| **ef/fo** | | | | | |
| **hi** | | | | | |
| **ni** | | | | | |
| **chi** | | | | | |
| **nhw** | | | | | |





**Gweithgaredd 3**

Cam 1: Torrwch y grid isod yn gardiau. Bydd yn rhaid cyfateb y frawddeg â'r arddodiad cyfansawdd cywir.

Cam 2: Defnyddiwch ddis rhagenw er mwyn ymarfer rhoi person gyda'r arddodiad cyfansawdd.

| | |
|---|---|
| Rhaid i bawb fynd | ar ôl |
| Peidiwch â thorri | ar draws |
| Mae angen i mi baratoi gwaith | ar gyfer |
| Eisteddodd pawb | o flaen |
| Mae llawer o sêr | uwchben |
| Mae'r glaw yn cwympo/syrthio | ar ben |
| Mae pobl yn chwerthin | am ben |

**Gweithgaredd yn y lleoliad**

Paratowch boster yn nodi'r arddodiad cyfansawdd yr ydych yn eu defnyddio fwyaf aml yn eich sesiynau.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn hyderus wrth roi person i'r arddodiaid cyfansawdd hyn.